



Y Gwasanaeth Gwydnwch Hinsawdd

Adroddiad Monitro Chwarterol ar Risgiau Hinsawdd a Chadwyn Gyflenwi i'r Diwydiant Bwyd a Diod

Ionawr – Mehefin 2026

Cyflwyniad.....	4
Crynodeb.....	5
Effeithiau'r Hinsawdd	6
Cymru a'r Deyrnas Unedig	6
Ewrop	7
Gogledd a De America.....	8
Crynodeb Byd-eang.....	8
Ein Hinsawdd sy'n Cynhesu.....	9
Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru.....	10
Rhyfel yr Unol Daleithiau-Israel-Iran	11
Effeithiau ar Wrtaithe	11
Effeithiau ar Ynni.....	12
Effeithiau ar Amaethyddiaeth.....	13
Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru.....	14
Nwyddau Byd-eang.....	14
Olewau a Blawd.....	14
Cig.....	17
Diodydd a Siwgr	18
Grawn.....	21
Gwrteithiau	22
Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru.....	24
Prisiau Mewnbyn a Nwyddau'r Deyrnas Unedig.....	24
Cnydau	24
Gwrteithiau	25
Cynnyrch Llaeth.....	25
Prisiau Tanwydd y Deyrnas Unedig.....	26
Ynni.....	27
Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru.....	28
Logisteg.....	28
Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru.....	30
Cyfyngiadau ar Allforio	30
Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru.....	31

Cadwyni Cyflenwi Bwyd a Dibyniaeth ar Fewnforion.....	31
Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru.....	33
Yr Economi.....	34
Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru.....	35
Sbotolau ar El Niño	35
Goblygiadau El Niño i'r Diwydiant Bwyd.....	37
Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru.....	38
Rhagolwg ac Ystyriaethau.....	39
Atodiad 1 – Methodoleg.....	41
Cyfyngiadau data.....	41
Ffynonellau.....	41
Atodiad 2 – Data Mewnforio 2025 yn seiliedig ar Wybodaeth Fasnach y Deyrnas Unedig CThEF.....	43
Protein anifeiliaid.....	43
Carbohydradau.....	44
Ffrwythau a llysiau	45
Atodiad 3 – Crynodeb o Wasanaethau Cynaliadwyedd a Gwydnwch Hinsawdd	47
Yr Is-adran Fwyd – Cymorth sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar gyfer busnesau Bwyd a Diod.....	47
Rhaglenni cymorth eraill yr Is-adran Fwyd ar gyfer busnesau Bwyd a Diod	47
Rhaglenni cymorth amaethyddol eraill.....	48

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio effeithiau dwysaol tarfu sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a tharfu o fath arall ar y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth. Mae'n ceisio amlygu effeithiau ar weithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru a'r goblygiadau iddynt, er mwyn helpu i reoli cadwyni cyflenwi a gwneud penderfyniadau rhagfynegol. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod 1 Ionawr 2026 tan 30 Mehefin 2026. Mae'r ffeithlun ar y dudalen nesaf yn crynhoi chwe phrif risg a'u heffeithiau ar fusnesau, dibyniaethau ar fewnforion, tueddiadau ym mhrisiau nwyddau, ac effeithiau posibl El Niño.

Bydd adroddiadau'n cael eu cyhoeddi'n chwarterol yn y dyfodol. Mae'r data a'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn gywir ar 5 Gorffennaf 2026, oni nodir fel arall.


Mae **Atodiad 1** yn crynhoi'r fethodoleg, y cyfyngiadau ar ddata a'r ffynonellau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad.

Nodyn ychwanegol:

Ers paratoi'r adroddiad hwn, mae tensiynau rhwng yr Unol Daleithiau ac Iran wedi gwaethygu unwaith eto. Mae llongau sy'n teithio drwy Gulfor Hormuz wedi lleihau eto, ac mae prisiau Olew Crai Brent a Nwy Naturiol Ewrop yn cynyddu.

Crynodeb

RISGIAU HINSAWDD A CHADWYNI CYFLENWI BWYD A DIOD



Ionawr - Mehefin 2026

CHWE PHRIF RISG

HINSAWDD - Tywydd poeth eithafol yn y DU ac Ewrop - Sychder a llifogydd - Tywydd eithafol yn tarfu ar gynhyrchu	GWRTHDARO BYD-EANG - Tensiynau rhwng UDA, Israel ac Iran yn amharu ar lwybrau ynni a llongau - Risg i gyflenwad a phris gwrtaith	LOGISTEG - Tarfu ar Gulfor Hormuz - Amhariad hirdymor ar Gamlas Suez - Costau cludo uwch ac amseroedd arwain hirac
NWYDDAU CRAI - Ansefydlogrwydd prisiau olewau, porthiant, cig, diodydd, grawnfwydydd a gwrtaith - Prisiau mewnbynnau allweddol yn parhau'n anrhagwladwy	CYFYNGIADA U ALLFORIO - Cyfyngiadau ar allforio gwrtaith, ac o bosibl siwgr - Risg o gyfyngiadau ehangach ar nwyddau crai	EL NIÑO - Tebygolrwydd uchel y bydd El Niño cryf yn datblygu - Y potensial am effeithiau tywydd sylweddol ledled y byd - Yn cynyddu'r risg i gadwyni cyflenwi

PRIF DUEDDIADAU PRISIAU NWYDDAU CRAI

YN CYNYDDU

Costau ynni	Cig eidion
Costau logisteg	Cig oen
Pris gwrtaith	Olew ffa soia

CADWCH LYGAD AR EFFAITH BOSIBL EL NIÑO AR BRISIAU

Coco	Reis
Coffi	Siwgr
Yd	

DIBYNIAETH AR FEWNFORION

Rhai o brif wledydd cadwyn gyflenwi bwyd y DU



Gall amhariaadau tywydd dramor odoed yn amhariaadau busnes yng Nghymru

EFFEITHIAU AR FUSNESAU

Costau mewnbynnau uwch	Prinder cyflenwad
Ansefydlo grwydd	Amseroedd arwain hirach
Pwysau ar y gadwyn	Pwysau ar lif arian

CYMORTH I FUSNESAU

	Cwblhewch yr hunanasesiad gwydrnwch hinsawdd
	Adolygwch yr adnoddau hyfforddi ar-lein ar addasu i'r hinsawdd
	Archebwch weithdy arweinyddiaeth gwydrnwch hinsawdd drwy bwyd-food@bic-innovation.com

EFFEITHIAU'R HINSAWDD YN Y DU A CHYMRU IONAWR-MEHEFIN 2026

Tywydd poeth eithafol ym mis Mai a mis Mehefin	Ionawr-Chwefror yn wlyb iawn; Ebrill-Mehefin yn sychach	Llawer mwy o heulwen yn ystod y gwanwyn
Mwy o risg o straen ar grydau oherwydd gwres a phridd sych	Pryderon ynghylch straen gwres a lles da byw	Galw cynyddol am ddyfrhau a mwy o bwysau ar gyflenwadau dŵr

Effeithiau'r Hinsawdd

Cymru a'r Deyrnas Unedig

Dechreuodd mis Ionawr gyda thywydd oer, gaeafol a chafodd rhannau o'r Deyrnas Unedig eira a rhew. Daeth Storm Goretti (8 – 9 Ionawr) â gwyntoedd difrodol ac eira i rai rhannau o Gymru, yn ogystal â Chernyw ac Ynysoedd Scilly. Daeth stormydd eraill ym mis Ionawr (Storm Ingrid a Storm Chandra) â **glaw trwm a gwyntoedd cryf, a chafwyd llifogydd mewn ardaloedd a oedd eisoes yn ddirlawn. Roedd glawiad yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y Deyrnas Unedig.** Roedd de Lloegr, Gogledd Iwerddon a dwyrain yr Alban yn arbennig o wlyb¹. Parhaodd y tywydd gwlyb ym mis Chwefror. Erbyn diwedd y mis, roedd y Deyrnas Unedig wedi cofnodi, dros dro, 123% o lawiad cyfartalog hirdymor mis Chwefror. **Cofnododd Cymru, dros dro, ei mis Chwefror mwyaf cymylog, a chafodd y Deyrnas Unedig ei mis Chwefror mwyaf cymylog a gofnodwyd erioed².** Amlygodd adroddiadau yn y cyfryngau^{3 4 5} effaith y glaw trwm a'r llifogydd ar ddechrau'r flwyddyn, gan ddweud **bod caeau cynydau grawn dan dŵr ac y bu angen symud da byw i dir uwch.** Yn ogystal, amlygodd sylwebaeth fod cynydau bresych, er enghraifft, mewn perygl o glefydau o ganlyniad i'r gaeaf cymharol fwyn.

Trodd y gwanwyn **yn gynhesach, yn fwy heulog ac yn sychach, fesul tipyn.** Tymheredd y Deyrnas Unedig oedd 7.0°C, sef 1.3°C yn uwch na'r cyfartaledd, roedd glawiad yn agos i'r cyfartaledd, sef 86.6 mm, ac roedd heulwen 21% yn uwch na'r cyfartaledd ym mis Mawrth. Roedd Cymru yn gynhesach fyth, o gymharu â'r arfer, sef 7.5°C ac 1.5°C yn uwch na'r cyfartaledd, gyda glawiad yn 92% o'r cyfartaledd a heulwen yn 118%. Ym mis Ebrill, gostyngodd glawiad yn y Deyrnas Unedig i 55.0 mm, sef 77% o'r cyfartaledd, a chafwyd 215.2 awr o heulwen, sef 139% o'r cyfartaledd; cofnododd Cymru 55.5 mm o law yn unig, sef 63% o'r cyfartaledd, a 209.5 o oriau o heulwen, sef 133% o'r cyfartaledd⁶. **Gorffennodd y Deyrnas Unedig fis Mai gyda thon wres ddigynsail. Roedd tymhereddau 1.3°C yn uwch na'r cyfartaledd, gyda 55.1 mm o lawiad, sef 78% o'r cyfartaledd,** ac roedd heulwen 5% yn uwch na'r cyfartaledd. Cofnododd Cymru 12.4°C, sef 1.5°C yn uwch na'r cyfartaledd, glawiad o 69.9 mm, sef 80% o'r cyfartaledd, a heulwen 5% uwchlaw'r cyfartaledd, hefyd. Adroddodd y Swyddfa Dywydd mai mis Mai 2026 oedd y **mis Mai trydydd cynhesaf a gofnodwyd erioed ar gyfer y Deyrnas Unedig a Chymru,** a thorwyd y tymheredd uchaf a gofnodwyd erioed ym mis Mai yn y Deyrnas Unedig ddwywaith yng Ngerddi Kew, gan gyrraedd 35.1°C ar 26 Mai. Cyflwynodd hyn risgiau ynglŷn â **straen gwres ar gnydau, y galw am ddyfrhau, straen gwres ar dda byw, cynhyrchedd llafur a rheoli cadwyn wedi'i hoeri,** yn enwedig ar gyfer cynnyrch ffres, cynnyrch llaeth, cig a logisteg sy'n sensitif i dymheredd⁷. **Cafwyd ail don wres ym mis Mehefin,** yn fuan ar ôl ton wres mis Mai, a chyrraeddwyd uchafswm tymheredd newydd ar

¹ [mwr_2026_01_for_print.pdf](#)

² [feb-monthly-weather-report.pdf](#)

³ <https://www.fwi.co.uk/news/weather/persistent-rain-threatens-crops-and-farmers-livelihoods>

⁴ <https://www.farmersguide.co.uk/rural/environmental/farmers-struggle-with-flooding-after-weeks-of-continuous-rainfall/>

⁵ <https://www.channel4.com/news/farmers-worry-for-crops-with-yet-more-rain-in-february>

⁶ <https://www.metoffice.gov.uk/about-us/news-and-media/media-centre/weather-and-climate-news/2026/england-and-wales-record-one-of-their-warmest-marches-on-record>

⁷ <https://www.metoffice.gov.uk/about-us/news-and-media/media-centre/weather-and-climate-news/2026/warmest-spring-on-record-for-england-and-wales--third-warmest-for-uk>

gyfer mis Mehefin, sef 37.3°C, yn Suffolk. Cofnododd Parc Bute yng Nghaerdydd 35.9°C ar 25 Mehefin, gan osod uchafswm tymheredd dyddiol newydd yng Nghymru ar gyfer mis Mehefin⁸.

Adroddodd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) fod y **cyfnod estynedig o dywydd sych ym mis Ebrill a mis Mai wedi rhoi pwysau ar gnydau'r gaeaf a'r gwanwyn**, gan fod gwenith gaeaf a raddiwyd yn dda neu'n rhagorol wedi gostwng o 74% fis yn gynharach i 64%, bod haidd gaeaf wedi gostwng o 70% i 62% a bod ceirch gaeaf wedi gostwng o 81% i 71%. Nododd yr AHDB hefyd fod y tymereddau uchel diweddar wedi cynyddu'r straen ar gnydau, oherwydd gwelwyd bod dail gwenith yn plygu tuag i mewn. Roedd yn ymddangos bod Cymru mewn sefyllfa gymharol well na rhai rhannau o Loegr, ac adroddodd AHDB fod cyflwr 85% o wenith gaeaf a haidd gwanwyn yn dda neu'n rhagorol yng Nghymru ar ddiwedd mis Mai, ond bod y **rîsg i'r gadwyn gyflenwi ledled y Deyrnas Unedig yn uchel o hyd oherwydd bod Lloegr yn agored i lawer o'r risg grawn a chynnyrch ffres**⁹.

Ewrop

Roedd glaw trwm yn ne **Sbaen a Moroco** wedi amharu ar gyflenwadau **ffrwythau meddal a chnydau salad** i'r Deyrnas Unedig. Mae'r ddwy wlad yn gyflenwyr allweddol cynnyrch ffres i'r Deyrnas Unedig yn ystod misoedd y gaeaf. Cofnododd Sbaen ei glawiad uchaf ers 2001 ym mis Ionawr ac adroddwyd bod llifogydd **wedi effeithio ar 40,000 o hectarau o dir amaeth ledled Sbaen a Moroco**¹⁰. Mis Mawrth oedd y **mis Mawrth ail gynhesaf erioed yn Ewrop**¹¹. Nodweddyd mis Ebrill gan wasgedd uchel parhaus dros orllewin a chanol Ewrop, a arweiniodd at dywydd sychach na'r cyfartaledd ar draws y rhanbarthau hynny, tra bod rhannau mwyaf dwyreiniol a de-ddwyreiniol Ewrop, rhannau o Sbaen a'r Eidal, arfordir Maghreb a'r Cawcasws yn wlypach na'r cyfartaledd. Roedd y patrwm hwn yn gymysg i gadwyni cyflenwi bwyd: roedd pridd llaith wedi cefnogi llawer o gnydau gaeaf, ond roedd dirlawnder a difrod llifogydd wedi effeithio ar rai ardaloedd cynhyrchu deheuol a gorllewinol, tra bod y tywydd sych wedi dechrau erydu biomas cnydau a chynyddu'r angen am ddyfrhau yng nghanol, gogledd a dwyrain Ewrop¹². Adroddodd Copernicus mai **mis Mai 2026 oedd y mis Mai ail gynhesaf yn fyd-eang, y mis Mai seithfed cynhesaf yn Ewrop, a'i fod yn rhan o'r gwanwyn trydydd cynhesaf yn Ewrop**, gyda thon wres anarferol o gynnar a dwys yng ngorllewin Ewrop yn hwyr yn y mis. Roedd rhannau mawr o orllewin a chanol Ewrop a rhannau o ddwyrain Ewrop yn sychach na'r cyfartaledd, gyda llifoedd afonydd is na'r cyfartaledd ar draws llawer o ranbarthau sych¹³.

Adroddodd Bwletin Monitro Cnydau Canolfan Ymchwil ar y Cyd yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer mis Mai¹⁴ **amodau ffafrïol ar gyfer cnydau yn gyffredinol a disgwyliadau cyfartalog i uwch na'r cyfartaledd ar gyfer cynnyrch gan mwyaf**, ond nododd hefyd fod glawiad annigonol ym mis Ebrill yng nghanol, dwyrain a gogledd Ewrop wedi arafu twf biomas, y gallai llwydrew hwyr fod wedi effeithio ar had rêp mewn

⁸ <https://www.metoffice.gov.uk/about-us/news-and-media/media-centre/weather-and-climate-news/2026/third-consecutive-day-of-a-new-june-temperature-record-with-end-of-heatwave-in-sight>

⁹ <https://ahdb.org.uk/news/crop-ratings-fall-after-dry-april-and-may>

¹⁰ <https://www.grocerygazette.co.uk/2026/02/26/shortages-supermarket-severe-weather/>

¹¹ <https://climate.copernicus.eu/copernicus-fourth-warmest-march-globally-sea-surface-temperatures-return-near-record-levels>

¹² https://joint-research-centre.ec.europa.eu/jrc-news-and-updates/favourable-crop-conditions-across-europe-2026-04-27_en

¹³ <https://climate.copernicus.eu/climate-bulletin>

¹⁴ https://joint-research-centre.ec.europa.eu/jrc-news-and-updates/fair-outlook-despite-water-stress-2026-05-18_en

rhannau o ganol a dwyrain Ewrop, a bod tywydd oer a gwlyb wedi oedi hau yn y gwanwyn yn ne-ddwyrain Ewrop a Türkiye. Mae'r amodau hyn yn awgrymu **risg anghyson i'r gadwyn gyflenwi** yn hytrach nag ysgytwad unffurf i gynhyrchu Ewropeaidd: mae grawn yn parhau i gael eu cefnogi at ei gilydd, ond dylid monitro had rêp, cnydau'r gwanwyn, llysiau a chynhyrchu dyfredig ar gyfer cynnyrch rhanbarthol, ansawdd a phwysau o ran argaeledd.

(**Sylwer:** Nid oedd Bwletin Monitro Cnydau Canolfan Ymchwil ar y Cyd yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer mis Mehefin ar gael mewn pryd i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.)

Gogledd a De America

Yng Ngogledd America, dechreuodd y flwyddyn yn gynnes ac yn sych ar draws llawer o'r Unol Daleithiau, **a phrofodd yr Unol Daleithiau cyffiniol eu tri mis cyntaf sychaf o unrhyw flwyddyn a gofnodwyd erbyn diwedd mis Mawrth¹⁵**, a ddilynwyd gan y cyfnod Ionawr – Ebrill ail sychaf a gofnodwyd erioed a **sychder a effeithiodd ar 61.7% o'r Unol Daleithiau cyffiniol (CONUS) erbyn diwedd mis Ebrill¹⁶**. Gostyngodd hyn i oddeutu 58.4% o CONUS ym mis Mai, a pharhaodd sychder ar draws llawer o'r mewndir gorllewinol, gan gynnwys y Gwastadeddau. Mae sychder eithafol i eithriadol a chyfnodau oer yng nghanol mis Mai wedi cyfrannu at yr hyn a allai fod yn fethiant cnwd gwenith gaeaf mwyaf Nebraska mewn degawdau¹⁷.

Parhaodd amodau gwenith gaeaf i ddirywio yng Ngwastadeddau Mawr yr Unol Daleithiau wrth i gynaeafu ddechrau yn y de, ac roedd tywydd oer a gwlyb wedi arafu hau gwenith gwanwyn, india-corn a ffa soia yng Nghanada¹⁸. Ym mis Mai, rhagamcanodd Adran Amaethyddiaeth yr Unol Daleithiau gyflenwadau llai o wenith yn yr Unol Daleithiau, gydag 1.561 biliwn o fwyselau o'r holl fathau o wenith wedi'u cynhyrchu, sef 424 miliwn yn llai na'r flwyddyn flaenorol, a 25% yn llai o wenith gaeaf wedi'i gynhyrchu a llai o allforion wedi'u rhagfynegi¹⁹.

Dywedwyd bod cynhaeaf india-corn a ffa soia Brasil yn ffafriol - eithriadol, ac roedd cynhaeaf ffa soia'r Ariannin wedi arwain at gynnyrch da, at ei gilydd^{20 21}. Dylai'r amodau ffafriol hyn helpu i wrthbwysu rhywfaint o'r risg i rawn yn Hemisffer y Gogledd gan fod mwy o india-corn, blawd soia ac olew llysiau o Dde America ar gael.

Crynodeb Byd-eang

Adroddodd Canolfannau Cenedlaethol ar gyfer Gwybodaeth Amgylcheddol yr Unol Daleithiau yn gynnar ym mis Mehefin mai **tymheredd arwyneb byd-eang Ionawr-Mai oedd y pedwerydd cynhesaf erioed** a'i fod 1.14°C yn uwch na chyfartaledd yr 20^{fed} ganrif, sef 13.1°C²². Adroddodd y sefydliad ymhellach, yn

¹⁵ <https://www.ncei.noaa.gov/news/national-climate-202603>

¹⁶ <https://www.ncei.noaa.gov/news/national-climate-202604>

¹⁷ <https://www.ncei.noaa.gov/access/monitoring/monthly-report/national/202605#ytd-highlights>

¹⁸ <https://www.cropmonitor.org/crop-monitor-for-amis>

¹⁹ <https://www.usda.gov/about-usda/general-information/staff-offices/office-chief-economist/commodity-markets/wasde-report>

²⁰ <https://www.cropmonitor.org/crop-monitor-for-amis>

²¹ <https://www.fao.org/giews/countrybrief/country.jsp?code=BRA>



²² <https://www.ncei.noaa.gov/access/monitoring/monthly-report/global/202605/2026-year-to-date-temperatures-versus-previous-years>

seiliedig ar anomaleddau presennol, ei bod bron yn sicr y bydd 2026 yn un o'r 10 mlynedd gynhesaf, a bod tebygolrwydd cryf y bydd 2026 ymhlith y 5 mlynedd gynhesaf²³.

Ei Hinsawdd sy'n Cynhesu


Mae Ewrop a'r Deyrnas Unedig newydd brofi **dwy don wres ddigynsail**²⁴. Mae'r graff ar y dde yn dangos bod tymereddau uchaf cyfartalog y Deyrnas Unedig ym mis Mai a mis Mehefin yn sylweddol uwch na'r arfer.

Er bod ton wres mis Mehefin ar ei chryfaf yn ne Lloegr a Chymru, **chwalwyd dros 170 o recordiau** ledled y Deyrnas Unedig, a ddangosir ar y map isod, a chofrestrodd rhai gorsafoedd tywydd dymheredd a oedd 6°C yn uwch na'r record.



Roedd ton wres mis Mehefin yn fwy heriol oherwydd y cyfuniad o leithder a nosweithiau trofannol, sydd wedi bod yn anghyffredin iawn yn y Deyrnas Unedig. Dringodd tymereddau i fwy na 40°C a thorrwyd recordiau yn Ewrop, hefyd.

Ewrop yw'r cyfandir sy'n cynhesu gyflymaf, gan ei bod uwchlaw'r newid deng mlynedd mewn tymereddau byd-eang cyfartalog o 1991-2020, fel y dangosir gan y graff isod.




Ffynhonnell y graffiau a'r map: Gwefan Newyddion y BBC, 4 Gorffennaf 2026

²³ <https://www.ncei.noaa.gov/access/monitoring/monthly-report/global/202605/global-annual-temperature-rankings-outlook>

²⁴ 'Hotter and hotter and hotter' - Europe's new climate in seven charts – Newyddion y BBC

Cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd ei **Bedwerydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd – Asesiad Annibynnol (CCRA4-IA) ym mis Mai 2026**²⁵. Mae'r adroddiad yn nodi bod y risgiau i'r Deyrnas Unedig yn uwch bellach nag yn yr adroddiad blaenorol, sef CCRA3-IA. Mae'r asesiad hwn “wedi'i seilio ar dystiolaeth newydd o newidiadau cyflymach i'r hinsawdd, tystiolaeth o gynnydd posibl i amlygiad a/neu fregusrwydd, a diffyg cynnydd mewn perthynas ag addasu”. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at ganlyniadau newid hinsawdd dramor a'r effeithiau niweidiol ar y Deyrnas Unedig, gan nodi'n arbennig brisiau bwyd uwch a diffyg cynhyrchion ar silffoedd archfarchnadoedd o ganlyniad i amharu ar fewnforio cynhyrchion a deunydd crai. Mae'r ffeithlun isod, a gymerwyd o CCRA4-IA, yn amlygu tair enghraifft o newidiadau a arsylwyd i hinsawdd y Deyrnas Unedig.



Ffynhonnell: Pedwerydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd – Asesiad Annibynnol (CCRA4-IA)
(<https://www.theccc.org.uk/publication/a-well-adapted-uk/>)

Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru


Mae'r patrymau a'r eithafion tywydd hyn yn effeithio ar gadwyni cyflenwi'r Deyrnas Unedig a thramor, gan gynyddu prisiau a chyfyngu ar gyflenwadau, o bosibl. Gallant effeithio ar dymhorau hau, tyfu a chynaeafu, o gaeau dirlawn i sychder. Mae'r tonnau gwres diweddar wedi effeithio ar y seilwaith cadwyn oer. Cyhoeddodd y Ffederasiwn Cadwyn Oer “Cyswllt Critigol: Strategaeth Wydnwch ar gyfer Diogelu Cyflenwad Bwyd y Deyrnas Unedig yn erbyn Bygythiadau Cynyddol i'r Gadwyn Oer” ym mis Mehefin 2026²⁶. Nododd yr adroddiad hwn fod tua 50% o storffeydd oer y Deyrnas Unedig yn 20 oed a mwy ac nad ydynt wedi'u peiriannu ar gyfer gwres 40°C+ ac felly eu bod yn agored i fethu. Mae methiant storffeydd oer mewn busnes gweithgynhyrchu yn arwain at fwy o gostau yn sgil cynnal a chadw, uwchraddio, premiymau yswiriant a gwastraff bwyd. Mae tonnau gwres yn effeithio ar iechyd a lles pobl, yn enwedig pan fyddant wedi'u cyfuno ag effeithiau nosweithiau trofannol sy'n lleihau ein gallu i adfer o wres y dydd yn nhymereddau oerach y nos. Fe all hyn effeithio ar gynhyrchedd a chyflwyno risgiau iechyd a diogelwch posibl i gyflogwyr.

²⁵ Lowe, J. A., Harrison, M. a Perks, R. J. (2026). CCRA4-IA Adroddiad Technegol.

²⁶ Y Cyswllt Critigol: Strategaeth Wydnwch ar gyfer Diogelu Cyflenwad Bwyd y Deyrnas Unedig yn erbyn Bygythiadau Cynyddol i'r Gadwyn Oer
Y Ffederasiwn Cadwyn Oer, 2026

Rhyfel yr Unol Daleithiau-Israel-Iran

Arweiniodd ddechrau'r rhyfel at y **golled fwyaf erioed o gyflenwadau olew**. Roedd cau Culfor Hormuz wedi tarfu'n ddigynsail ar gadwyni cyflenwi nwyddau byd-eang. Cyn y gwrthdaro, roedd llongau a oedd yn teithio trwy'r Culfor yn cynrychioli **35% o'r fasnach fyd-eang a gludir ar y môr mewn olew crai, 20% o betrolewm puredig ac 20% o nwy naturiol hylifedig (LNG)**. Mae'r graff isod yn dangos y cyfyngiad syth ar longau'n teithio trwy Gulfor Hormuz ar ddechrau'r gwrthdaro. Y llinell doredig yw'r **cyfartaledd symud 7 diwrnod yn y flwyddyn flaenorol**. Mae'r llinell felen yn dangos y **cyfartaledd symud 7 diwrnod presennol** ac mae'r bwllch mawr rhwng y ddwy linell yn amlwg. Llofnodwyd y cytundeb heddwch rhwng Unol Daleithiau America ac Iran, a adwaenir fel y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, ym mis Mehefin gydag ymrwymiad i drafodaethau pellach i ddod i gytundeb terfynol²⁷. Mae'r graff yn dangos cynnydd yn nifer y llongau a oedd yn teithio trwy'r Culfor tua diwedd mis Mehefin, ond bydd yn cymryd sawl mis i'r symudiadau ddychwelyd i'r lefelau cyn y rhyfel.




Ffynhonnell: IMF Portwatch, a gyrchwyd ar 4 Gorffennaf 2026

Effeithiau ar Wrtaitth


Saethodd **mynegai gwrtaitth** Grŵp Banc y Byd i fyny i'r lefel uchaf ers 2022. Mae'r graff ar y dudalen nesaf, ar y chwith, yn dangos y cynnydd misol mwyaf mewn prisiau gwrtaitth yn ystod y degawd diwethaf ac yn dangos y bu'r cynnydd misol ail fwyaf mewn prisiau ym mis Mawrth 2026. Mae'r graff isod ar y dde yn dangos mynegai fforddiadwyedd gwrtaitth Grŵp Banc y Byd, y disgwylir iddo ddirywio eleni i'r lefelau gwaethaf ers 2022. Fodd bynnag, gwnaed y rhagfynegiad hwn ym mis Ebrill, a chan dybio y byddai tarfu sy'n gysylltiedig â'r rhyfel yn **dod i ben erbyn diwedd mis Mai ac y byddai nifer y llongau sy'n teithio trwy'r Culfor yn dychwelyd yn raddol i rywbeth tebyg i'r lefelau cyn y rhyfel erbyn mis Hydref**. Roedd Culfor Hormuz yn parhau i fod ar gau y tu hwnt i ddiwedd mis Mai, sy'n golygu bod y cynnydd rhagfynedig yn fwy tebygol. Felly, fe allai prisiau uwch gwrtaitth arwain at gynhyrchu llai o gnyddau mewn rhai rhanbarthau, gan fygwth diogeledd bwyd.

²⁷ <https://www.bbc.co.uk/news/articles/c4gy700j0eko>

B. Largest monthly increases in fertilizer prices, past decade



B. Fertilizer affordability index




Ffynhonnell: Rhagolwg Marchnadoedd Nwyddau Banc y Byd, Ebrill 2026

Effeithiau ar Ynni

Mae'r graff **Olew Brent** ar y dde, a gymerwyd o Ragolwg Marchnadoedd Nwyddau Banc y Byd ym mis Ebrill 2026, yn dangos yn glir y cynnydd mawr mewn prisiau a ddigwyddodd ar ôl i ryfel yr Unol Daleithiau-Israel-Iran ddechrau, a aeth yn fwy na \$100 fesul casgen ym mis Mawrth.

Ffynhonnell: Rhagolwg Marchnadoedd Nwyddau Banc y Byd, Ebrill 2026

A. Brent oil price and key events




Adroddodd y BBC ar 25 Mehefin 2026 fod pris olew wedi gostwng yn ôl i lefelau cyn rhyfel Iran²⁸. Mae'r graff ar y dde, a gymerwyd o wefan Newyddion y BBC, yn dangos y cynnydd mawr ym mhreis Olew Brent, gan ostwng ym mis Ebrill pan gyhoeddwyd y cadoediad cychwynnol, cyn codi'n sydyn eto pan oedd tensiynau'n parhau, ac yna dechrau gostwng o ganol mis Mai ymlaen.

Ffynhonnell: Gwefan Newyddion y BBC, 25 Mehefin 2026

Oil price back to pre-war levels

Brent crude futures, US dollars per barrel, 2026




Note: Y-axis does not start at zero

Source: Bloomberg. Last update: 10:00 BST, 25 Jun 2026

BBC

Mae'r graff ar y dudalen nesaf yn dangos y cynnydd ym mhreis **nwy naturiol Ewropeaidd**. Mae difrod hirdymor i seilwaith LNG Qatar wedi cyfrannu at brisiau cynyddol, ynghyd â chystadleuaeth gan brynwyr Asiaidd. Mae prisiau'n parhau i fod yn uwch na'r cyfartaleddau blyneddol ers 2023, ond bu gostyngiad bach ers mis Mai.

²⁸ Oil price falls to levels not seen since before Iran war – Newyddion y BBC




Ffynhonnell: Banc y Byd – Data Prisïau Nwyddau (Y Ddalen Binc), 2 Gorffennaf, 2026.

Effeithiau ar Amaethyddiaeth


Mae'r graffiau isod ac ar y dde yn cymharu effeithiau rhyfel yr Unol Daleithiau-Iran ag ymosodiad Rwsia ar Wcráin.

Mae Graff A yn dangos bod y newidiadau i brisiau ar draws bwyd, olewau a bawd, grawn a bwyd arall yn ystod mis cyntaf y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol yn is na'r rhai a brofwyd yn ystod yr ymosodiad ar Wcráin yn 2022. Fodd bynnag, mae Graff B yn dangos bod yr effeithiau ar olew crai Brent, nwy naturiol Ewropeaidd a gwrteithiau wedi bod yn fwy difrifol o ganlyniad i Ryfel y Dwyrain Canol.

A. Agriculture price changes during the first month of conflict




B. Energy and fertilizer price changes during the first month of conflict




Ffynhonnell: Rhagolwg Marchnadoedd Nwyddau Banc y Byd, Ebrill 2026

Mae'r graffiau ar y dudalen nesaf gan Grŵp Banc y Byd yn dangos y symudiad mewn mynegeion ar draws bwyd, diod a deunyddiau crai. **Cynyddodd olewau a bawd 6% (o fis i fis) ym mis Mawrth o ganlyniad i alw uwch am ddeunydd crai ar gyfer biodanwydd.** Mae mandadau biodanwydd wedi cael eu cyflwyno mewn gwledydd gan gynnwys Indonesia, Thailand ac Unol Daleithiau America, sy'n ychwanegu at y gystadleuaeth am gnydau fel india-corn.


C. Agricultural price indexes




D. Food price indexes



E. Oils and meals price indexes



F. Wheat and maize futures prices



Ffynhonnell: Rhagolwg Marchnadoedd Nwyddau Banc y Byd, Ebrill 2026

Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru

Mae'r gwrthdaro hwn wedi tarfu ar forgludiant trwy Gulfor Hormuz, sef un o lwybrau masnach forol pwysigaf y byd ar gyfer olew crai, nwy naturiol hylifedig a gwrteithiau, sydd oll yn allbynnau allweddol i'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth. Mae bregusrwydd cadwyni cyflenwi bwyd cymhleth, cydgysylltiedig wedi dod i'r amlwg, wrth i gostau uwch ynni, cludo llwythi a gwrtaith gynyddu costau cynhyrchu a chyfrannu at brisiau mwy anwadal ar gyfer nwyddau allweddol, gan wasgu gorsymiau masnachu ar gyfer gweithgynhyrchwyr bwyd a diod.

Nwyddau Byd-eang²⁹

Olewau a Blawd


Mae data o Ddalen Binc Grŵp Banc y Byd, a gyhoeddwyd ar 2 Gorffennaf 2026³⁰, yn dangos bod pris **olew palmwydd** wedi gostwng i \$1,105/tunnell fetrig (mt) ym mis Mehefin 2026, i lawr o \$1,146/mt ym mis Ebrill 2026, ond bron 17% yn uwch nag ar ddiwedd ail chwarter 2025. Mae'r graff ar y dudalen nesaf yn dangos bod pris blyneddol cyfartalog olew palmwydd yn cynyddu, gyda gostyngiad yn ystod y ddeufis diwethaf.

Er bod y prisiau'n is na'r rhai uchaf erioed a welwyd yn 2022 yn sgil y tarfu ar brisiau olew llyisiau byd-eang ar ôl i Rwsia ymosod ar Wcráin, maen nhw'n adlewyrchu galw uwch sydd wedi sbarduno defnydd,

²⁹ Banc y Byd. 2026. Rhagolwg Marchnadoedd Nwyddau, Ebrill 2026. Washington DC: Banc y Byd. Trwydded: Priodoliad Creative Commons CC BY 3.0 IGO


³⁰ <https://www.worldbank.org/en/research/commodity-markets>

sy'n golygu mai olew palmwydd yw'r olew llysiau a ddefnyddir fwyaf yn y byd³¹. Ar yr un pryd, mae polisïau biodanwydd llywodraethau wedi cynyddu'r galw hefyd trwy ddargyfeirio mwy o olew palmwydd i gynhyrchu biodiesel. Ar yr ochr gyflenwi, mae'r twf mewn cynhyrchu wedi arafu o ganlyniad i gyfyngiadau ar ddefnydd tir, prinder llafur, planhigfeydd sy'n heneiddio a gofynion cynaliadwyedd cynyddol. Mae Indonesia a Malaysia yn cynhyrchu tua 85% o'r olew palmwydd yn y byd, ac mae digwyddiadau tywydd neu gyfyngiadau masnach sy'n effeithio ar y naill wlad neu'r llall yn cael effaith fawr ar brisiau byd-eang.



Ffynhonnell: Data Prisiau Nwyddau Banc y Byd (Y Ddalen Binc), 2 Gorffennaf 2026


Mae'r graff isod yn dangos bod pris **olew ffa soia** wedi dechrau cynyddu o bedwerydd chwarter 2025, pan oedd y pris chwarterol cyfartalog yn \$1,125/mt, a'i fod wedi parhau i gynyddu yn ystod 2026 i gyrraedd cyfartaledd chwarterol o \$1,730/mt, gan sefydlogi ychydig yn ystod y mis diwethaf i gyrraedd pris cyfartalog o \$1,765/mt ym mis Mehefin 2026.



31 <https://www.iisd.org/publications/report/2023-global-market-report-palm-oil>


Ffynhonnell: Data Prisiau Nwyddau Banc y Byd (Y Ddalen Binc), 2 Gorffennaf 2026

Dangosir pris blynyddol cyfartalog **blawd ffa soia** yn y graff isod, ac mae wedi gostwng yn sylweddol ers 2023, gan leihau o \$551/mt yn 2023 i \$336/mt yn 2025. Fodd bynnag, mae'r pris cyfartalog wedi cynyddu ers chwarter olaf 2025, a chofnodwyd cynnydd misol bach ers mis Ebrill 2026.



Ffynhonnell: Data Prisiau Nwyddau Banc y Byd (Y Ddalen Binc), 2 Gorffennaf 2026

Mae'r graff isod yn dangos bod pris blynyddol cyfartalog **ffa soia** wedi gostwng bron 31% ers 2023 o \$598/mt i \$414/mt. Fodd bynnag, mae prisiau wedi dechrau cynyddu eto yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan orffen ar bris cyfartalog o \$468/mt ar gyfer mis Mehefin 2026.




Ffynhonnell: Data Prisiau Nwyddau Banc y Byd (Y Ddalen Binc), 2 Gorffennaf 2026

Cododd prisiau'n sydyn yn y **farchnad ffa soia fyd-eang** yn 2022, yn dilyn y rhyfel yn Wcráin a'r tarfu ar gadwyni cyflenwi yn ystod y pandemig COVID-19, a thywydd garw a leihaodd gynaeafau yn Ne America. Mae'r cyflenwad wedi'i grynhoi i raddau helaeth iawn, gan fod Brasil, Unol Daleithiau America a'r Ariannin yn cynhyrchu ac allforio'r rhan fwyaf o'r ffa soia yn y byd. Felly, mae digwyddiadau tywydd a

pholisi masnach sy'n effeithio ar y gwledydd hyn yn cael dylanwad mawr ar brisiau byd-eang. Cynhyrchodd yr Ariannin fwy o ffa soia ar gyfer y flwyddyn farchnata (MY) 2025/26³².

Cig

Mae'r tri graff nesaf yn dangos y newidiadau i brisiau byd-eang cyfartalog **cig eidion**, **cyw iâr** a **chig oen**. O'r tri math hyn o nwyddau, prisiau cyw iâr sydd wedi bod yn fwyaf sefydlog, tra bod prisiau cig eidion wedi codi'n sydyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Sbardunwyd y prisiau uchel hyn gan gyflenwadau gwartheg cyfyngedig mewn gwledydd allforio mawr, ailsefydlu buchesau yn dilyn sychder yn Awstralia³³ a rhannau o Dde America a galw mawr am fewnforio gan Asia, yn enwedig Tsieina. Mae'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol wedi codi prisiau tanwydd a gwrtaith ar gyfer cynhyrchwyr yn Awstralia³⁴. Fodd bynnag, mae prisiau cig eidion wedi gostwng ychydig yn ddiweddar.




Ffynhonnell: Data Prisiau Nwyddau Banc y Byd (Y Ddalen Binc), 2 Gorffennaf 2026

Roedd y duedd gyffredinol ar i fyny mewn prisiau **cyw iâr** byd-eang yn adlewyrchu costau uwch porthiant, ynni a chludo. Mae'r graff ar y dudalen nesaf yn dangos bod prisiau wedi aros yn gymharol sefydlog yn ystod y 12 mis diwethaf, a bod y diwydiant cynhyrchu dofednod yn gallu ymateb yn gyflymach i newidiadau i'r farchnad o ganlyniad i gylchoedd cynhyrchu byrrach. Fodd bynnag, mae brigiadau o achosion o fflw adar wedi tarfu ar gynhyrchu a masnach.

³² <https://www.ers.usda.gov/topics/crops/soybeans-and-oil-crops/market-outlook>


³³ <https://www.feedstuffs.com/livestock-and-poultry-market-news/australia-s-beef-sector-rebuilding-after-drought>

³⁴ <https://ahdb.org.uk/news/australia-remains-a-key-player-on-the-global-beef-and-lamb-markets-what-happened-in-q1-beef-and-lamb-market-update>



Ffynhonnell: Data Prisiau Nwyddau Banc y Byd (Y Ddalen Binc), 2 Gorffennaf 2026

Mae'r graff isod yn dangos bod prisiau **cig oen** wedi aros yn uchel, sy'n adlewyrchu galw rhyngwladol cryf a chyfraddau cynhyrchu a lladd sy'n gostwng mewn rhai gwledydd allweddol, fel Awstralia³⁵.




Ffynhonnell: Data Prisiau Nwyddau Banc y Byd (Y Ddalen Binc), 2 Gorffennaf 2026

Diodydd a Siwgr


Mae'r tri graff nesaf yn dangos y newidiadau i brisiau **coffi (Arabica a Robusta) a choco**. Cafwyd yr holl brisiau o Ddalen Binc Prisiau Nwyddau Banc y Byd³⁶, a gyhoeddwyd ar 2 Gorffennaf 2026.

³⁵ <https://ahdb.org.uk/news/australia-remains-a-key-player-on-the-global-beef-and-lamb-markets-what-happened-in-q1-beef-and-lamb-market-update>

³⁶ <https://www.worldbank.org/en/research/commodity-markets>



Cynyddodd prisiau coffi Arabica (uchod) a Robusta (isod) yn sydyn yn ystod 2024 a 2025 yn dilyn sychder a thymereddau uchel ym Mrasil. Fodd bynnag, mae disgwyliadau ynglŷn â'r cynhaeaf gorau erioed ym Mrasil wedi lleihau prisiau. Er hynny, ceir pryderon ynglŷn ag El Niño ac effeithiau posibl ar ddiwedd cynhaeaf Brasil yn 2026/27 ac ymlaen i 2027/28³⁷. Mae El Niño fel arfer yn dod â thywydd poethach a sychach i rannau o dde-ddwyrain Asia, a allai gael effeithiau negyddol ar gynhyrchu coffi Robusta yn Fietnam, gan gynyddu prisiau ymhellach³⁸.




Ffynhonnell y ddau graff: Data Prisiau Nwyddau Banc y Byd (Y Ddalen Binc), 2 Gorffennaf 2026

Mae'r graff isod yn dangos bod prisiau **coco** wedi gostwng yn sylweddol o'u lefelau uchaf digynsail bron yn 2024 ac yn gynnar yn 2025, a sbardunwyd gan ddiffygion cynhyrchu difrifol yn Côte d'Ivoire a Ghana, a achoswyd yn eu tro gan ddigwyddiadau tywydd, clefyd cnydau a phlanhigfeydd sy'n heneiddio. Mae tywydd gwell dros Orllewin Affrica, disgwyliadau ynglŷn â chynhaeaf gwell yn 2025/26, a llai o hap-brynu

³⁷ <https://www.fas.usda.gov/data/gain/2026/06/brazil-coffee-annual>


³⁸ <https://www.comunicaffe.com/vietnam-usda-cy-2025-26-production-up-to-31-7-million-bags-el-nino-looms-over-cy-2026-27/>

wedi cyfrannu at leihau prisiau. Fodd bynnag, mae prisiau'n parhau i fod yn agored i ysgytwadau yn y dyfodol oherwydd y tywydd, yn enwedig yng Ngorllewin Affrica sy'n cyflenwi tua 60% o goco'r byd³⁹.



Ffynhonnell: Data Prisiau Nwyddau Banc y Byd (Y Ddalen Binc), 2 Gorffennaf 2026

Mae prisiau **siwgr** wedi gostwng oherwydd disgwylir i symiau mawr fod dros ben yn nhymor 2025-26 ym Mrasil ac India, sef y ddau gynhyrchwr mwyaf yn y byd. Mae'r graff ar y dudalen nesaf yn dangos y duedd am i lawr. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn yr adran ar gyfyngiadau allforio, tybir efallai y bydd India'n cyfyngu ar allforion, yn dibynnu ar effeithiau'r digwyddiad El Niño sydd i ddod. Mae'n debygol y bydd hyn yn cynyddu pris siwgr.




Ffynhonnell: Data Prisiau Nwyddau Banc y Byd (Y Ddalen Binc), 2 Gorffennaf 2026

³⁹ <https://blogs.worldbank.org/en/opendata/-beverage-prices-moderate-as-coffee-and-cocoa-supply-recover>

Grawn

Mae prisiau india-corn wedi gostwng ers lefelau uchel 2022, sy'n adlewyrchu cynaeafau cryf ym Mrasil, Unol Daleithiau America a'r Ariannin. Mae'r graff isod yn dangos tuedd barhaus am i lawr mewn prisiau ar gyfer hanner cyntaf 2026, yn seiliedig ar ragolygon ffafriol at ei gilydd ar gyfer cynhyrchu yn yr Unol Daleithiau a chystadleuaeth gynyddol o Dde America⁴⁰.




Ffynhonnell: Data Prisiau Nwyddau Banc y Byd (Y Ddalen Binc), 2 Gorffennaf 2026

Mae prisiau **gwenith** wedi gostwng o lefelau uchel 2022, ond mae'r sychder ar draws Gwastadeddau Mawr yr Unol Daleithiau wedi lleihau cnwd **Gwenith Gaeaf Coch Caled (HRW) yr Unol Daleithiau** yn sylweddol ac arwain at gefnu ar fwy o gnydau. Yn ôl Adran Amaethyddiaeth yr Unol Daleithiau, rhagfynegir mai cnwd gwenith HRW yr Unol Daleithiau yn 2026/27 fydd y lleiaf ers 1957/58⁴¹. Effeithiodd costau uwch gwrtaithe ac effeithiau'r tywydd mewn rhanbarthau eraill fel Awstralia ac Ewrop ar y cynnydd ym mhrisiau gwenith ym mis Mai⁴², fel y dangosir yn y graff ar y dudalen nesaf.

40 <https://www.amis-outlook.org/market-monitor#MaizeInternationalPrices>

41 <https://www.ers.usda.gov/topics/crops/wheat/market-outlook>


42 <https://www.fao.org/giews/food-prices/international-prices/detail/en/c/1759472/>



Ffynhonnell: Data Prisiau Nwyddau Banc y Byd (Y Ddalen Binc), 2 Gorffennaf 2026

Mae'r graff ar y dde, sy'n dod o Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth (FAO) y Cenhedloedd Unedig⁴³, yn dangos bod prisiau **reis** wedi bod yn gostwng ar ôl lefelau uchel 2023 a dechrau 2024. Mae'r gostyngiad mwy diweddar ym mhrisiau reis yn adlewyrchu gwelliant sylweddol yn y cyflenwad byd-eang. Mae llawer o ranbarthau tyfu reis yn adrodd am amodau ffafriol⁴⁴. Mae'r cynnydd diweddar yn seiliedig ar bryderon ynglŷn â'r digwyddiad tywydd El Niño⁴⁵.

Ffynhonnell: Diweddariad ar Brisiau'r Holl Reis, yr FAO, Gorffennaf 2026



Gwrteithiau

Cynyddodd mynegai prisiau gwrtaith Grŵp Banc y Byd⁴⁶ fwy na 12% yn ystod chwarter cyntaf 2026 a chyrhaeddodd ei lefel uchaf ers 2022 ym mis Mawrth 2026. Sbardunwyd y cynnydd gan effaith allforion gwrteithiau a mewnbynnau yn sgil cau Culfor Hormuz. Pris cyfartalog **nitrogen (wrea)** oedd \$725 fesul tonnell fetrig ym mis Mawrth, sef bron 55% yn uwch na mis Chwefror. Mae'r Culfor yn llwybr morgludiant allweddol ar gyfer gwrteithiau nitrogen. Yn ogystal, rhoddodd **Iran** y gorau i gynhyrchu amonia o ganlyniad i'r gwrthdaro ac mae **Qatar** wedi atal cynhyrchu wrea, amonia a sylffwr dros dro yn dilyn difrod i'w chyfleusterau cynhyrchu. Mae **India** yn cynhyrchu llai o wrea ac amonia oherwydd y

⁴³ <https://www.fao.org/worldfoodsituation/csdb/en>

⁴⁴ <https://www.amis-outlook.org/market-monitor#RiceCropMonitor>

⁴⁵ <https://www.amis-outlook.org/market-monitor#RiceInternationalPrices>


⁴⁶ Banc y Byd. 2026. Rhagolwg Marchnadoedd Nwyddau, Ebrill 2026. Washington DC: Banc y Byd. Trwydded: Priodoliad Creative Commons CC BY 3.0 IGO

dirywiad yn y cyflenwad LNG. Bu adroddiadau yn y cyfryngau y gallai **Tsieina** (y cynhyrchwr gwrtaith nitrogen mwyaf yn y byd a'r allforiwr ail fwyaf) gwtogi allforion yn ystod ail chwarter 2026 i warchod prisiau gwrtaith domestig. Rhagfynegir y bydd prisiau wrea'n cynyddu bron 60% yn 2026, ac y bydd amodau'r farchnad yn aros yn dynn. Gan fod nwy naturiol yn ddeunydd crai ar gyfer cynhyrchu wrea, ceir pryderon y gallai hyn, ynghyd â chyfyngiadau ychwanegol ar fasnach, wthio costau mewnbwn i fyny ymhellach ac y gallai prisiau wrea cyfartalog fynd uwchlaw cyfartaledd 2022 o \$700 fesul tonnell fetrig.


Mae'r graff isod, "Prisiau gwrtaith", yn dangos prisiau **DAP (diamoniwm ffosffad), wrea a MOP (clorid potash, neu botasiwm clorid)**. Roedd prisiau **DAP** 6% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Mae rhagolygon yn ddarostyngedig i ddwy risg allweddol a allai wthio prisiau'n uwch o lawer. Yn gyntaf, ailosod cyfyngiadau allforio gan Tsieina ac, yn ail, cau Culfor Hormuz am gyfnod maith sy'n parhau i darfu ar y fasnach wrtaith fyd-eang. Cynyddodd prisiau **MOP (clorid potash, neu botasiwm clorid)** dros 5% yn ystod chwarter cyntaf 2026 a 17% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Mae allforion o Felarws wedi bod yn cynyddu ar ôl i sancsiynau'r Unol Daleithiau gael eu llacio. Disgwylir i allforion o Ganada ac allforion o Weriniaeth Ddemocrataidd y Bobl Lao gynnal cyflenwadau digonol eleni a'r flwyddyn nesaf. Disgwylir i brisiau MOP gynyddu tua 12% yn 2026. Fe allai prisiau leihau ymhellach yn sgil cyflwyno capasiti cynhyrchu newydd sylweddol, yn enwedig yng Nghanada (cynhyrchwr ac allforiwr potash mwyaf y byd). Cyrhaeddodd prisiau **wrea** gyfartaledd misol o \$856.9/mt ym mis Ebrill 2026, ond maen nhw wedi gostwng ers hynny i \$453.1/mt. Mae'r gostyngiad mewn prisiau'n cyd-fynd â gostyngiad yn y galw gan ffermwyr yn yr Unol Daleithiau wrth i dymor plannu'r gwanwyn orffen a'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol dad-ddwysáu, gan leddfu ofnau ynglŷn â tharfu parhaus ar y cyflenwad⁴⁷.

Mae'r graff "Costau mewnbwn gwrtaith" isod yn dangos prisiau'r mewnbynnau allweddol i wneud gwrtaith. Mae'r graff hwn yn dangos er bod costau'r tri mewnbwn wedi cynyddu ers dechrau'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol, eu bod wedi aros yn is na'r cynnydd sydyn a welwyd yn 2022 pan ymosododd Rwsia ar Wcráin.

A. Fertilizer prices




B. Fertilizer input costs



Ffynhonnell: Rhagolwg Nwyddau Banc y Byd, Ebrill 2026

Mae'r graff isod yn dangos, yn 2025, mai'r Iseldiroedd, Gwlad Belg, yr Almaen, Norwy a Sbaen oedd pum prif bartner mewnfario gwrtaith y DU, yn ôl cyfaint.

⁴⁷ <https://ukragroconsult.com/en/news/urea-prices-fall-to-their-lowest-level-since-the-start-of-the-iran-war-amid-oversupply/>



Ffynhonnell: Mae'r ffigurau mewnforio uchod ar gyfer SITC 27 a 56 yn defnyddio darn o Ystadegau Masnach Tramor mewn Nwyddau (OTS) a gynhyrchwyd gan Gyllid a Thollau EM (CThEM) a gafwyd mynediad iddo ar 13 Gorffennaf 2026.

Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru

Mae llawer o weithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru yn dibynnu ar gynhwysion a deunyddiau crai amaethyddol wedi'u mewnforio, hyd yn oed pan fydd cynhyrchion yn cael eu gweithgynhyrchu yma yng Nghymru. Mae newidiadau i brisiau grawn, olewau llysiau a blawd hadau olew yn effeithio ar gost bara, cynhyrchion popty, porthiant anifeiliaid a bwydydd wedi'u prosesu, tra bod amrywiadau i brisiau cig yn dylanwadu ar gostau mewnbyn da byw a phris cynhyrchion cig. Mae siwgr, coffi, coco a reis yn cael eu mewnforio i'r Deyrnas Unedig i raddau helaeth, sy'n golygu bod tarfu ar y cyflenwad byd-eang, tywydd garw, tensiynau geowleidyddol, cyfyngiadau ar fasnach a symudiadau'r gyfradd gyfnewid yn gallu treiddio trwodd yn gyflym i gostau gweithgynhyrchu. Gall cynnydd sydyn mewn prisiau nwyddau leihau maint yr elw pan na ellir trosglwyddo costau uwch ymlaen i gwsmeriaid, ac mae prisiau anwadal yn gwneud caffael, cyllidebu a rheoli contractau'n fwy anodd.

Prisiau Mewnbyn a Nwyddau'r Deyrnas Unedig

Cnydau

Yn ôl yr AHDB, adroddwyd bod **cnydau'r Deyrnas Unedig**⁴⁸ yn tyfu'n dda, a bod glawiad mis Mai wedi eu helpu i adfer ar ôl y tywydd sych cynharach. Roedd y don wres ar ddiwedd mis Mai wedi cynyddu'r straen ar gnydau, a gwelwyd bod dail gwenith yn plygu tuag i mewn. Nododd yr AHDB fod rêp had olew (OSR) wedi gwneud yn well na gwenith a haidd, yn gyffredinol. Mae'r tabl isod yn crynhoi asesiadau cnydau'r AHDB ar ddiwedd mis Mai 2026:

⁴⁸ <https://ahdb.org.uk/cereals-oilseeds/crop-development-report>

Cnwd	Asesiad yr AHDB
Gwenith gaeaf	Mae 64% o'r cnydau gwenith gaeaf ledled y Deyrnas Unedig mewn cyflwr da neu ragorol, i lawr o 75% ym mis Ebrill ac 82% ar ddiwedd mis Mawrth. Fodd bynnag, mae'r sgôr yn well na mis Mai 2025 (36%) a mis Mai 2024 (55%).
Haidd gaeaf	Graddiwyd bod 62% o gnwd haidd gaeaf y Deyrnas Unedig mewn cyflwr da neu ragorol, i lawr o 70% ym mis Ebrill ac 85% ym mis Mawrth. Mae'n uwch na'r lefel 48% ym mis Mai 2025, ond yn unol â'r 62% a adroddwyd ym mis Mai 2024.
Ceirch gaeaf	Graddiwyd bod 71% o gnwd ceirch gaeaf y Deyrnas Unedig yn dda neu'n rhagorol, i lawr o 81% ym mis Ebrill, ond yn uwch o lawer na'r 52% a nodwyd ym mis Mai 2025.
Rêp had olew gaeaf	Graddiwyd bod 78% o gnydau rêp had olew y gaeaf yn dda neu'n rhagorol, i lawr o'r 84% a adroddwyd ym mis Ebrill, ond yn uwch o lawer na'r 52% a nodwyd ym mis Mai 2025.
Gwenith gwanwyn	Dim ond 35% o'r cnydau gwenith gwanwyn sydd mewn cyflwr da neu ragorol ledled y Deyrnas Unedig, sy'n sylweddol is na'r 50% a adroddwyd y llynedd.
Haidd gwanwyn	Mae 57% o gnwd haidd gwanwyn y Deyrnas Unedig mewn cyflwr da neu ragorol, sydd ychydig yn uwch na'r 54% y llynedd, ond ymhell islaw'r 83% ar ddiwedd mis Mai 2023.
Ceirch gwanwyn	Mae 55% o geirch gwanwyn y Deyrnas Unedig mewn cyflwr da neu ragorol, sy'n uwch na'r 42% a adroddwyd y llynedd, ond yn is na'r 73% a adroddwyd yn 2024.

Gwrteithiau

Mae costau'r **gwrteithiau** a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin wedi cynyddu rhwng 20% a 26% ers dechrau'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol. Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn yn y prisiau a gofnodwyd ar 19 Mehefin 2026 yn cuddio cynnydd uwch fyth yn ystod y cyfnod adrodd gan fod prisiau wedi dechrau gostwng bellach. Mae'r tabl isod yn dangos y pedwar prif wrtaith a ddefnyddir yn y Deyrnas Unedig ac yn cymharu pob un â'r pris cyn y rhyfel ym mis Ionawr 2026 a'r pris uchaf yn 2022. Er bod prisiau'n uwch o gymharu â mis Ionawr 2026 a mis Mehefin 2025, maen nhw'n parhau i fod tua 40% - 45% yn is na'r prisiau eithafol a welwyd yn 2022, yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin, y galw ar ôl COVID a gosod sancsiynau a chyfyngiadau ar allforio.

Gwrteithiau	Pris ar 19/06/26, fesul tonnelli	Pris fesul tonnelli ym mis Ionawr 2026	% cynnydd/gostyngiad	Pris fesul tonnelli Mehefin 2025	Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn	Y pris uchaf yn 2022 fesul tonnelli	% gostyngiad
Amoniwm nitrad – a gynhyrchir yn y DU	£497	£393	26%	£383	30%	£841	-41%
Amoniwm nitrad – wedi'i fewnforio	£478	£399	20%	£376	27%	£870	-45%
Wrea gronynnog	£519	£427	22%	Ddim ar gael	Ddim ar gael	£911	-43%
Sylffwr nitrad	£483	£393	23%	£383	26%	Dim cymhariaeth	D/C

Ffynhonnell: Addaswyd o Brisiau Gwrtaith Misol ac Wythnosol Prydain Fawr, yr AHDB⁴⁹

Cynnyrch Llaeth


Mae'r graff ar y dudalen nesaf yn dangos y **prisiau cyfanwerthu ar gyfer cynnyrch llaeth** gan yr AHDB⁵⁰. Cynyddodd y pris cyfanwerthu ar gyfer **powdwr llaeth sgim (SMP)** yn ystod y misoedd diwethaf, yn dilyn galw ehangach am brotein a'r prinder yn y farchnad, gan gyrraedd brig ym mis Mai, sef £2,500/tonnell, cyn gostwng i £2,290/tonnell ym mis Mehefin, sef 16% yn fwy na mis Mehefin 2025. Cynyddodd pris

⁴⁹ <https://ahdb.org.uk/GB-fertiliser-prices>

⁵⁰ Prisiau cyfanwerthu'r Deyrnas Unedig | AHDB

cyfartalog **hufen crynswth** ym mis Mehefin i £1,387/tunnell, sef 48% yn llai na mis Mehefin 2025 a 14% yn uwch na'r mis blaenorol. Roedd **menyn** yn £3,240/tunnell, sef 47% yn llai o gymharu â mis Mehefin 2025 a 3% yn llai na mis Mai. Gostyngodd **caws Cheddar mwyn** 26% o fis Mehefin 2025 i fod yn £2,890/tunnell, sef 2% yn llai na mis Mai. Mae cyflenwadau llaeth yn y Deyrnas Unedig wedi bod yn llai na'r lefelau flwyddyn yn ôl ers mis Ebrill ac mae rhywfaint o gapasiti prosesu'n weddill bellach. Mae llaeth Ewropeaidd yn gryf iawn o hyd, gan roi pwysau ar y farchnad ehangach.

Figure 1. UK dairy product wholesale prices



Ffynhonnell: Prisiau Cyfanwerthu Cynnyrch Llaeth y Deyrnas Unedig, yr AHDB


Prisiau Tanwydd y Deyrnas Unedig

Mae'r tabl isod, ar y chwith, yn dangos bod pris **diesel y Deyrnas Unedig** wedi cynyddu bron 34% o flwyddyn i flwyddyn. Roedd diesel y Deyrnas Unedig wrth y pwmp yn 142 ceiniog fesul litr ym mis Ionawr 2026 a chododd 35% i 192 ceiniog ym mis Ebrill 2026. Fodd bynnag, gostyngodd y pris i 186.21 ceiniog fesul litr ym mis Mai. Mae pris **diesel coch** wedi cynyddu mwy fyth o flwyddyn i flwyddyn, sef bron 54%. Roedd yn 76 ceiniog fesul litr ym mis Ionawr, gan godi i 117.5 ceiniog ym mis Ebrill, sef cynnydd o 54.6%, cyn gostwng yn ôl i 112.41 ceiniog fesul litr ym mis Mai⁵¹. Mae'r graff nesaf at y tabl yn dangos y traciwr prisiau tanwydd misol, a gyhoeddwyd gan yr AHDB. Mae'n dangos yn glir y cynnydd sydyn mewn prisiau tanwydd ym mis Mawrth a mis Ebrill, ar ôl i wrthdaro'r Unol Daleithiau-Israel-Iran ddechrau.

⁵¹ <https://ahdb.org.uk/fuel-prices>

Month	OPEC price (US\$ / barrel)	OPEC price (£ / barrel)	UK red diesel (ppl)*	UK diesel pump price (ppl)
May-26	114.55	84.95	112.41	186.21
Apr-26	109.06	80.99	117.56	192.40
Month-on-month change	5.49	3.96	-5.15	-6.19
% change	5.0%	4.9%	-4.4%	-3.2%
May-25	63.62	47.58	73.12	139.07
Year-on-year change	50.93	37.36	39.29	47.14
% change	80.1%	78.5%	53.7%	33.9%

Figure 2. Monthly fuel price tracker



Ffynonellau: Prisiau tanwydd yr AHDB

(**Sylwer:** Nid oedd prisiau tanwydd misol yr AHDB ar gyfer mis Mehefin ar gael mewn pryd i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn.)

Ynni

Ar 26 Mehefin 2026, gwerth marchnad cyfredol **trydan** yn y Deyrnas Unedig oedd £91.04/MWh, sef 12% yn fwy na dechrau 2026, ond yn is na'r brig ar 3 Mawrth pan gyrhaeddodd £111.06/MWh.

Mae pris mis Mehefin 29.5% yn uwch na mis Mehefin 2025⁵². Mae'r graff ar y dde, a gafwyd o Trading Economics, yn dangos er bod gwerth marchnad cyfredol trydan wedi cynyddu ers dechrau'r flwyddyn, ei fod yn sylweddol is na'r lefelau brig a welwyd yn 2022.



Ffynhonnell: Trading Economics, a gyrchwyd ar 28/06/26

Mae'r graff isod yn dangos bod **prisiau nwy naturiol y Deyrnas Unedig** wedi gostwng i oddeutu 96.2 ceiniog fesul therm, sef yr isaf ers mis Chwefror ac ers i weithgarwch morgludiant ddechrau ailgychwyn trwy Gulfor Hormuz, er hynny ar lefel is⁵³. Mae Prif Weinidog Qatar wedi dweud y disgwylir i gynhyrchu

⁵² <https://tradingeconomics.com/united-kingdom/electricity-price>

⁵³ <https://tradingeconomics.com/commodity/uk-natural-gas>

LNG ddychwelyd i'r arfer o fewn wythnosau, heblaw am y cyfleuster sydd wedi'i ddifrodi⁵⁴. Fe allai'r gobaith o ailgychwyn llifoedd LNG o'r Gwllff helpu Ewrop i ailgyflenwi stociau cyn y gaeaf.



Ffynhonnell: Trading Economics, a gyrchwyd ar 28/06/26

Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru

Mae newidiadau i brisiau nwyddau yn y Deyrnas Unedig yn sbardun allweddol ar gyfer costau a chystadleurwydd gweithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru oherwydd eu bod yn dylanwadu'n uniongyrchol ar bris deunyddiau crai, prosesu, cludiant ac oeri. Mae grawn yn fewnbwn hanfodol ar gyfer blawd, cynhyrchion popty, grawnfwydydd brecwast a phorthiant anifeiliaid, sy'n golygu bod amrywiadau i brisiau gwenith a grawn arall yn effeithio ar gostau gweithgynhyrchu bwyd a chynhyrchu da byw. Mae newidiadau i brisiau cynnyrch llaeth yn dylanwadu ar gost llaeth, caws, menyn a chynhwysion llaeth eraill a ddefnyddir ar draws y sector. Yn y cyfamser, mae newidiadau i brisiau petrol a diesel yn effeithio ar gost cludo cynhwysion a chynhyrchion gorffenedig trwy gadwyni cyflenwi sy'n aml yn hir, tra bod prisiau nwy naturiol a thrydan yn effeithio'n uniongyrchol ar brosesau sy'n defnyddio llawer o ynni, fel pobi, bragu, prosesu cynnyrch llaeth, oeri a rhewi.

Logisteg

Yn ôl Mynegai Cynwysyddion y Byd Drewry⁵⁵, mae'r cytundeb dros dro rhwng yr Unol Daleithiau ac Iran wedi rhoi hwb i farchnadoedd **morgludiant byd-eang** trwy leihau risg tarfu yng Nghulfor Hormuz. Fodd bynnag, mae ansicrwydd yn parhau, er y gobeithir y bydd llai o densiwn yn sefydlogi prisiau olew a thanwydd byncar, gan leihau pwysau costau ar longau cludo. Mae galw cryf yn y tymor brig a'r gordaliadau parhaus ar longau cludo yn cadw'r pwysau ar gyfraddau gwerth marchnad cyfredol yn uchel. Neidiodd cyfradd gwerth marchnad cyfredol Mynegai Cynwysyddion y Byd Drewry 5% i \$4,166 fesul cynhwysydd 40 troedfedd, wedi'i sbarduno gan gynydd mewn cyfraddau ar lwybr masnach y Môr Tawel. Mae'r graff isod yn dangos cyfraddau gwerth marchnad cyfredol Mynegai Cynwysyddion y Byd Drewry o Shanghai. Mae'r llinell felen yn dangos y cyfraddau o Shanghai i Rotterdam a'r llinell wyrddlas

⁵⁴ <https://www.reuters.com/business/energy/qatar-resume-normal-liquefied-natural-gas-production-within-few-weeks-pm-tells-2026-06-24/>


⁵⁵ <https://www.drewry.co.uk/supply-chain-advisors/supply-chain-expertise/world-container-index-assessed-by-drewry>

yn dangos y cyfraddau ar gyfer Shanghai i Genoa. Mae'r ddwy'n dangos cynnydd mawr ers dechrau mis Mai.


Y cyfraddau ar lwybr **Shanghai i Rotterdam** oedd \$4,392 ar 25 Mehefin 2026, a \$5,759 fesul cynhwysydd 40 troedfedd ar **lwybr Shanghai i Genoa**.

Mae tagfeydd mewn hybiau Asiaidd ac Ewropeaidd allweddol yn parhau i gyfyngu ar argaeledd llongau ac mae hyn, ynghyd â galw uchel am gargo, yn cynnal capasiti tynn ar draws lonydd masnach pwysig. Disgwylir i brisiau fod yn anwadal eto yn y tymor byr.

Ffynhonnell: Mynegai Cynwysyddion y Byd Drewry, a gyrchwyd ar 28 Mehefin 2026




Mae llai o deithiau trwy Gamlas Suez o hyd o ganlyniad i'r tensiwn ehangach yn y Dwyrain Canol. Mae'r graff isod yn dangos bod swm y teithiau (mewn tunelli metrig) wedi gostwng yn sydyn yn gynnar yn 2024, ac nad yw wedi adfer eto, gan ychwanegu pwysau at gostau logisteg.



Ffynhonnell: Portwatch y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF), a gyrchwyd ar 5 Gorffennaf 2026

Mae Mynegai Prisiau TEG⁵⁶ yn olrhain y prisiau cyfartalog a dalwyd am **wasanaethau cludo nwyddau a negesydd yn y Deyrnas Unedig**. Dangosodd crynodeb mis Mai⁵⁷, at ei gilydd, fod prisiau trafndiaeth ffyrdd wedi cynyddu 1.21% rhwng mis Ebrill a mis Mai 2026, sef 4.68% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Gostyngodd prisiau cludo nwyddau ychydig (-0.45%), ond cynyddodd prisiau negesydd 2.74%. Y cynnydd o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer cludo nwyddau a negeswyr oedd 3.74% a 5.62%, yn y drefn honno. Mae'r graff ar y dde yn dangos y mynegai cyffredinol fel llinell ddu, mae'r llinell felen yn cynrychioli negeswyr ac mae'r llinell las yn cynrychioli cludwyr nwyddau. Mae'r holl fynegeion yn mynd tuag i fyny.



Ffynhonnell: Mynegai Prisiau Trafndiaeth TEG, a gyrchwyd ar 28 Mehefin 2026

Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru

Mae newidiadau i gostau logisteg a llwybrau cludiant yn gallu cael effaith fawr ar weithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru oherwydd bod llawer yn dibynnu ar gynhwysion, pecynnu ac offer wedi'u mewnfario, yn ogystal â rhwydweithiau dosbarthu effeithlon i gyflenwi cwsmeriaid ledled y Deyrnas Unedig a thramor. Mae'r cyfyngiadau parhaus ar deithio trwy Gamlas Suez yn cynyddu costau cludiant, premiymau yswiriant ac amserau teithio wrth i longau gael eu dargyfeirio o amgylch y Penrhyn Gobaith Da, gan ymestyn teithiau oddeutu 10-14 diwrnod ar lawer o lwybrau rhwng Asia ac Ewrop. Mae'r tarfu yma'n arwain at gostau mewnbwn uwch ac amserau arwain hirach, yn lleihau dibynadwyedd y gadwyn gyflenwi ac yn cynyddu gofynion cyfalaf gweithio i ddal mwy o stoc. Ar yr un pryd, mae costau cynyddol cludo nwyddau ar y ffyrdd yn y Deyrnas Unedig yn cynyddu cost symud deunyddiau crai a chynhyrchion gorffenedig o fewn cadwyni cyflenwi domestig.

Cyfyngiadau ar Allforio

Ar 5 Mawrth, gwaharddodd **Kuwait** allforio pob math o gynhyrchion bwyd trwy ei thir, ei môr a'i meysydd awyr. Rhoddwyd y cyfarwyddyd gan y Gweinidog Masnach a Diwydiant⁵⁸ yn rhan o ymdrechion i sicrhau diogeledd bwyd a sefydlogrwydd y farchnad ddomestig. Ym mis Mawrth, gwaharddodd **Iran** yr holl allforion bwyd-amaeth⁵⁹ er mwyn blaenoriaethu cyflenwi nwyddau hanfodol yn y wlad ei hun.

⁵⁶ <https://teg.tech/road-transport-price-index/>

⁵⁷ <https://teg.tech/road-transport-price-index/may-2026/>

⁵⁸ Kuwait bans export of all food products to protect supply

⁵⁹ <https://www.just-food.com/news/iran-bans-all-agri-food-exports/>

Adroddodd Reuters⁶⁰ ar 19 Mawrth fod **Tsieina** yn cyfyngu ar **allforion gwrtaith, gan gynnwys cymysgeddau gwrtaith nitrogen-potasiwm a rhai mathau o ffosffadau**, i warchod marchnadoedd domestig. Ni chyhoeddwyd y gwaharddiad yn ffurfiol. Yn ôl Uchafbwyntiau Polisi Bwyd-Amaeth mis Mai 2026, a gyhoeddwyd gan Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig⁶¹, ymestynnodd Tsieina gyfyngiadau ar allforio **wrea** tan fis Awst 2026, a chyflwynodd gwota o 700,000 o dunelli ar **asid sylffwrig**, gan gwtogi'r cyflenwad dramor 25% cyn atal allforion o fis Mai 2026. Mae Türkiye wedi gwahardd allforion sylffwr. Disgwylir i'r gwaharddiad aros mewn grym tan drydydd chwarter eleni⁶².

Ar 22 Mehefin 2026, adroddodd Reuters⁶³ y disgwylir y bydd India, sef yr allforiwr **siwgr** mwyaf yn y byd ar ôl Brasil, **yn brin o siwgr dros ben i'w allforio am dri thymor arall o leiaf wrth i dywydd El Niño fygwth cynhyrchu cansenni a'r galw uwch am ethanol wasgu'r cyflenwad**. Fe allai'r pwysau hyn o ddau du amddifadu'r farchnad fyd-eang o filiynau o dunelli o siwgr, gan dynhau cyflenwadau ar gyfer mewnforwyr ac effeithio ar brisiau. Mae'r rhagolygon ar gyfer llai o lawiad yn India yn debygol o effeithio ar gynhyrchu cansenni siwgr. Allforiodd India 6.8 miliwn o dunelli o siwgr bob blwyddyn ar gyfartaledd yn ystod y pum tymor o 2022-2023, sef tua 10% o'r llwythi a gludwyd yn fyd-eang. Eleni, mae'r wlad wedi allforio tua 800,000 o dunelli, cyn gwahardd cludo llwythi tan 30 Medi⁶⁴.

Rhagfynegwyd y byddai India'n cynhyrchu 30.95m o dunelli o siwgr y tymor hwn, ond bellach rhagfynegir allbwn o 27.9m o dunelli, sy'n is na'r defnydd blynyddol o oddeutu 28.5m o dunelli.

Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru

Mae cyfyngiadau ar allforio nwyddau strategol bwysig yn lleihau argaeledd byd-eang, gan gynyddu anwadalrwydd prisiau a tharfu ar gadwyni cyflenwi. Mae gwrteithiau'n fewnbwn allweddol ar gyfer cynhyrchu amaethyddol, felly gall cyfyngiadau ar allforion gynyddu costau cynhyrchu ar gyfer grawn, betys siwgr, ffrwythau, llysiau a phorthiant da byw, gan arwain at brisiau uwch ar gyfer llawer o gynhwysion bwyd a ddefnyddir gan weithgynhyrchwyr. Yn yr un modd, gall cyfyngiadau ar allforio siwgr gan wledydd cynhyrchu pwysig dynhau cyflenwadau byd-eang a chynyddu costau mewnbyn ar gyfer gweithgynhyrchwyr melysion, cynnyrch popty, cynnyrch llaeth a diodydd.

Cadwyni Cyflenwi Bwyd a Dibyniaeth ar Fewnforion

Y **tri chynnyrch amaethyddol a fewnforiwyd fwyaf** yn y Deyrnas Unedig yn 2025, yn ôl cyfaint, oedd **india-corn, gwenith ac amyd a blawd ffa soia**. Mae'r graffiau isod yn dangos y dibynnir yn drwm ar **Ogledd America** am india-corn a gwenith, ac ar **Dde America** (yr Ariannin a Brasil) am flawd ffa soia. Gan fod rhannau o'r Unol Daleithiau'n dioddef sychder ac o ystyried costau uchel gwrtaith a thanwydd, mae'n debygol y bydd effaith ar brisiau'r nwyddau hyn.

60 <https://www.reuters.com/world/asia-pacific/china-restricts-fertiliser-exports-further-crimping-war-tightened-supply-2026-03-19/>


61 <https://www.fao.org/agrifood-economics/news/detail-events/en/c/1758817/>

62 <https://fertilizerfield.com/turkey-sulphur-export-ban-2026/>


63 India likely won't export sugar for years as El Nino, ethanol squeeze supply | Reuters

64 India bans sugar exports until Sept 2026 to cool local prices | Reuters


5 Prif Bartner Mewnforio India-corn y DU yn ôl Cyfaint (kg), 2025



5 Prif Bartner Mewnforio Gwenith a Amyd y DU yn ôl Cyfaint (kg), 2025



5 Prif Bartner Mewnforio Flawd Ffa Soia y DU yn ôl Cyfaint (kg), 2025



*Ffynhonnell ar gyfer pob siart:
Mae'r ffigurau mewnforio yn y tair
siart yma yn defnyddio darn o
Ystadegau Masnach Tramor mewn
Nwyddau (OTS) a gynhyrchwyd gan
Gyllid a Thollau EM (CThEM) a*

Mae'r Deyrnas Unedig yn dibynnu ar lawer o wledydd ar gyfer mewnforio **proteinau anifeiliaid**, **carbohydradau**, **ffrwythau**, **llysiau** a **chnydau salad**. Mae **Atodiad 1** yn crynhoi'r gwledydd tarddiad ar gyfer rhai o'r categorïau bwyd sy'n cael eu mewnforio i'r Deyrnas Unedig ac yn ffurfio rhan o'r gadwyn gyflenwi bwyd a diod.

Mae prif bartneriaid mewnforio'r Deyrnas Unedig ar gyfer **proteinau anifeiliaid** yn cynnwys gwledydd pell fel **Thailand** a **Brasil**, sy'n creu bregusrwydd yn y gadwyn gyflenwi o ganlyniad i amlygrwydd i dywydd garw, tarfu ar logisteg a chynnydd mewn prisiau, a'r cymhlethdodau sy'n deillio o gadwyni

cyflenwi hirach. Mae'r rhan fwyaf o fewnforion caws ac wyau'r Deyrnas Unedig yn dod o bartneriaid Ewropeaidd, gan gynnwys **Wcráin** a **Gwlad Pwyl**.

Mae **carbohydradau**’r Deyrnas Unedig yn dod o wledydd pell ac Ewropeaidd, hefyd. Dau brif bartner y Deyrnas Unedig ar gyfer **reis** yw **India** a **Phacistan**. Yn 2025, dioddefodd Pacistan **lifogydd** dinistriol, a achosodd ddifrod eang yn rhai o brif ranbarthau amaethyddol y wlad. Yn ôl Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig⁶⁵, roedd bron 14,500 km² o dir amaeth dan ddŵr, a reis oedd y cnwd yr effeithiwyd arno fwyaf (tua 3,000 km² o gnydau reis), gan ddileu cyfran bwysig o'r capasiti cynhyrchu reis cenedlaethol. Partner mewnforio trydydd mwyaf y Deyrnas Unedig yw'r **Eidal**, ac mae sychder wedi effeithio ar ranbarthau tyfu reis yr Eidal yn ystod y blynyddoedd diwethaf⁶⁶. Yr **Eidal** yw partner mewnforio mwyaf y Deyrnas Unedig ar gyfer pasta, hefyd. Tyfir **gwenith caled** mewn rhanbarthau deheuol, lle y disgwylir i'r cynnyrch ostwng wrth i'r hinsawdd gynhesu a glawiad leihau⁶⁷. **Gwlad Belg** a'r **Iseldiroedd** yw dau bartner mewnforio mwyaf y Deyrnas Unedig ar gyfer **tatws**. Roedd glaw gormodol a chaeau dan ddŵr, yn enwedig yn ystod yr hydref 2023, wedi arwain at lai o gynnyrch a phrisiau uwch⁶⁸.

Sbaen yw prif bartner mewnforio'r Deyrnas Unedig ar gyfer **ffrwythau**, **llysiau** a **chnydau salad**. Ym mis Hydref 2025, cyhoeddodd y Sefydliad Dosbarthu Nwyddau Groser (IGD) "Asesiad risg hinsawdd ar gyfer system fwyd y Deyrnas Unedig" a amlygodd fod y Deyrnas Unedig yn fwyaf agored i gostau uwch cynnyrch o Sbaen⁶⁹. Mae rhanbarthau amaethyddol Sbaen yn brin iawn o ddŵr, ac mae 20% o dir mawr Sbaen wedi'i 'ddiffeithdiro'⁷⁰, ac eto hefyd yn agored i law eithafol, llifogydd a chesair, sy'n golygu bod cnydau a dyfir mewn caeau ac o dan orchudd mewn perygl o ddifrod. Mae **Moroco** hefyd yn gyflenwr allweddol ffrwythau a llysiau ac yn wlad sy'n agored i'r newid yn yr hinsawdd. Effeithiodd llifogydd yn gynharach eleni ar allforion **tomatos** i'r Deyrnas Unedig⁷¹. **Colombia**, **Costa Rica** a **Gweriniaeth Dominica** yw prif bartneriaid masnachu'r Deyrnas Unedig ar gyfer **bananas**. Ym mis Mai 2025, cyhoeddodd Cymorth Cristnogol yr adroddiad "Going Bananas: how climate change threatens the world's favourite fruit"⁷² sy'n amlygu bod 60% o'r ardaloedd gorau ar gyfer tyfu bananas mewn perygl o dymereddau sy'n codi, tywydd eithafol a phlâu sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru

Mae'r Deyrnas Unedig yn dibynnu ar fewnforion dibynadwy llawer o nwyddau amaethyddol allweddol, sy'n golygu ei bod yn gynyddol agored i darfu sy'n gysylltiedig â'r tywydd dramor. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn cynyddu amlder a difrifoldeb sychder, tonnau gwres, llifogydd a stormydd mewn rhanbarthau cyflenwi pwysig gan gynnwys Sbaen, Moroco, yr Eidal a gwledydd eraill Môr y Canoldir, gan leihau cynnyrch, amharu ar gynaeafu a chludiant, a chyfrannu at brinder a phrisiau anwadal. Gall hyn

65 <https://openknowledge.fao.org/handle/20.500.14283/cd8566en>, <https://doi.org/10.4060/cd8566en>

66 <https://www.reuters.com/world/europe/italy-cut-rice-output-drought-looms-second-year-2023-03-24/>

67 Modeling high-resolution climate change impacts on wheat and maize in Italy, Climate Risk Management, Cyfrol 30, 2021; <https://doi.org/10.1016/j.crm.2021.100339>

68 <https://www.potatopro.com/news/2023/excessive-rain-delays-potato-harvest-north-western-europe-creating-new-uncertainties>

69 <https://www.igd.com/reports/a-climate-risk-assessment-of-the-uk-food-system/71694>

70 <https://www.realinstitutoelcano.org/en/commentaries/climate-change-takes-its-toll-on-spain/>

71 <https://www.fpcfreshtalkdaily.co.uk/post/floods-in-spain-and-morocco-raise-fresh-produce-supply-concerns-for-uk-retailers>


72 <https://mediacentre.christianaid.org.uk/going-bananas-new-report-shows-how-climate-change-threatens-the-worlds-favourite-fruit/>

effeithio'n uniongyrchol ar weithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru trwy gostau uwch cynhwysion, diffyg argaeledd deunyddiau crai, mwy o ansicrwydd ynglŷn â chaffael a mwy o bwysau i amrywiaethu cyflenwyr neu ailffurfio cynhyrchion. Mae'r ddibyniaeth hon ar fewnforio yn ffactor risg allweddol hefyd wrth ystyried diogeledd bwyd cyffredinol y Deyrnas Unedig.

Yr Economi

Arhosodd **cyfraddau llog** ar yr un lefel ym mis Mehefin, sef 3.75%, o ganlyniad i'r ansicrwydd ynglŷn ag effaith prisiau ynni uchel a rhybudd Banc Lloegr bod rhyfel y Dwyrain Canol wedi gadael pwysau chwyddiannol yn yr arfaeth⁷³. Mae'r graff isod yn dangos bod y **Mynegai Prisiau Defnyddwyr** wedi cynyddu 2.8% yn ystod y 12 mis hyd at fis Mai 2026, yn ddigyfnewid o'r 12 mis hyd at fis Ebrill 2026. Cludiant a gyfrannodd fwyaf tuag at y cynnydd yn y newid misol, a wrthbwyswyd yn rhannol gan gyfraniad gostyngol bwyd a diodydd dialcohol. Y gyfradd chwyddiant ar gyfer bwyd a diodydd dialcohol oedd 2.2% ym mis Mai, i lawr o 3% ym mis Ebrill⁷⁴.

CPIH, and food and non-alcoholic beverages 12-month inflation rates, UK, May 2016 to May 2026



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cyhoeddwyd adroddiad **Rhagolygon Chwyddiant Bwyd** yr IGD ym mis Mehefin 2026⁷⁵ ac mae'n nodi y disgwylir i chwyddiant bwyd uchel barhau, ar gyfartaledd o 3.3 i 4.3% yn 2026, 3.1 i 4.1% yn 2027, a gostwng i 2.2 i 3.2% yn ystod hanner cyntaf 2028. Mae'r adroddiad yn nodi bod yr IGD yn disgwyl i chwyddiant gyrraedd brig o oddeutu 5% yn ystod ail hanner 2026, gan aros yn uchel yn gynnar yn 2027, ac yna gostwng yn raddol.

Mae'r graff isod yn dangos rhagolwg yr IGD, yn seiliedig ar dybiaethau ynglŷn ag effaith y Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig (EPR) ar gostau, cynyddu'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn unol â chyflogau cyfartalog, gostyngiad mewn chwyddiant nwyddau bwyd, effeithiau gohiriedig tarfu, bod prisiau olew a nwy yn aros tua'r lefelau presennol, bod newidiadau polisi'r llywodraeth sydd wedi'u cynllunio ar hyn o bryd yn parhau heb newidiadau polisi newydd, a bod y pwysau ar lafur ac ardrethi busnes yn aros yn arwyddocaol.


⁷³ <https://www.bbc.co.uk/news/articles/c33yzm5mdjpo>

⁷⁴ <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/may2026>

⁷⁵ <https://www.igd.com/reports/viewpoint-food-inflation-forecasts-2026-28/73468>

UK retail food and drink price inflation, CPI method

Inflation, year-on-year (%)



Ffynhonnell: Rhagolygon Chwyddiant Bwyd yr IGD, Mehefin 2026, a gyrchwyd ar 28 Mehefin 2026

Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru

Mae cyfraddau llog a chwyddiant y Deyrnas Unedig yn dylanwadu ar gostau gweithredu a'r galw gan ddefnyddwyr. Mae chwyddiant uwch yn cynyddu cost mewnbynnau allweddol fel cynhwysion, pecynnu, ynni, cludiant a llafur, gan roi pwysau ar faint yr elw sy'n golygu na all busnesau drosglwyddo costau uwch yn llwyr i fanwerthwyr neu ddefnyddwyr. Mae cyfraddau llog uwch Banc Lloegr yn cynyddu costau benthyca ar gyfer cyfalaf gweithio, prynu offer a buddsoddi mewn ffatrioedd, sy'n golygu ei bod yn ddrutach i weithgynhyrchwyr ariannu twf, gwella cynhyrchedd neu fuddsoddi mewn datgarboneiddio. Gall cyfraddau llog uchel hefyd leihau gwariant aelwydydd gan fod costau morgais a benthyca'n codi, gan achosi i ddefnyddwyr ddewis cynhyrchion rhatach neu brynu llai o fwydydd yn ôl disgrisiwn.


Sbotolau ar El Niño

Cadarnhaodd Gweinyddiaeth Cefnforol ac Atmosfferig Genedlaethol (NOAA) yr Unol Daleithiau fod digwyddiad El Niño yn dod i'r amlwg a bod tebygolrwydd 63% (ar hyn o bryd) o El Niño 'cryf iawn'⁷⁶. Bydd ysgytwadau sy'n gysylltiedig ag El Niño yn dwysáu'r prisiau ynni a gwrtaith sydd eisoes yn uchel, cadwyni cyflenwi bregus a thensiynau geowleidyddol. Mae canlyniadau tebygol yn cynnwys sychder, llifogydd a straen gwres sy'n effeithio ar gynhyrchu amaethyddol, gostyngiad mewn cynhyrchedd llafur, argaeledd dŵr, cynhyrchu pŵer hydro a systemau trafndiaeth, gan arwain at brisiau bwyd ac ynni uwch a phwysau chwyddiannol. Cyhoeddodd Cyd-gyngor Ymchwil yr Undeb Ewropeaidd adroddiad, sef "From forecast to risk: an anticipatory analysis of the 2026-27 El Niño"⁷⁷, a grynodd y prif effeithiau. Mae'r map isod yn dangos yr effeithiau allweddol ar yr hinsawdd, dwysedd yr effeithiau hynny a'r effeithiau posibl ar amaethyddiaeth, symudedd dynol a seiclonaau trofannol.

Effeithiau mawr a phrif effeithiau hinsoddol digwyddiadau El Niño.

⁷⁶ <https://www.noaa.gov/news-release/el-nino-forms-expected-to-strengthen-say-noaa-forecasters>

⁷⁷ Acosta Navarro, J., Toreti, A., Bavera, D., Barantiev, D., Carioli, A. et al., From forecast to risk: an anticipatory analysis of the 2026-27 El Niño, Swyddfa Gyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd, Lwcsembwrg, 2026, <https://data.europa.eu/doi/10.2760/8279279>, JRC147365.




Ffynhonnell: Cyd-gyngor Ymchwil yr Undeb Ewropeaidd "From forecast to risk: an anticipatory analysis of the 2026-27 El Niño"

Mae'r map yn dangos:

- Gwres eithafol ar draws y rhanbarthau trofannol ac isdrofannol sy'n cynyddu o fis Medi, cyrraedd brig o fis Rhagfyr i fis Chwefror a pharhau hyd at fis Mai 2027
- Y dwysaf yw'r El Niño, y cynharaf a'r hiraf y bydd yr anomaleddau gwres yn para. Fe allai gwres arwyddocaol ddatblygu mor gynnar â mis Mehefin.
- Fe allai Gogledd Ewrasia a rhannau o Ogledd America brofi tywydd oerach nag arfer yn ystod misoedd y gaeaf
- Os bydd El Niño yn dod i'r amlwg fel digwyddiad digynsail, disgwylir i dywydd cynhesach ddechrau yn hwyr yn 2026 a dwysáu yn ystod y gwanwyn 2027 dros ranbarth cyfan Ewrasia
- Gall straen dŵr a sychder amaethyddol barhau fisoedd ar ôl i'r El Niño gyrraedd brig
- Fe allai Awstralia a De-ddwyrain Asia wynebu sychder aml-dymor
- Fe allai Affrica Ddeheuol, Canol America, rhannau gogleddol De America ac India wynebu digwyddiadau sychder arwyddocaol yn ystod eu tymhorau glawogydd
- Fe allai rhannau de-ddwyrainiol De America a Gorllewin yr Unol Daleithiau wynebu mwy o lawiad o'r hydref hyd at y gwanwyn.
- Bydd El Niño yn symud stormydd trofannol, gyda mwy o deifffnau yng ngorllewin y Môr Tawel

Mae El Niño cryf iawn yn codi tymheredd yr aer yn fyd-eang, gan ryddhau gwres sydd wedi'i storio yn y cefnfor i'r atmosffer, ac ychwanegu at dymereddau byd-eang sydd eisoes yn codi. Mae'r siart ar y dde, a gymerwyd o wefan Newyddion y BBC⁷⁸, yn dangos y tymereddau brig a achosir gan El Niño, ynghyd â'r tymereddau oerach a brofir yn ystod La Niña. Mae trywydd cyffredinol y graff yn dangos bod tymereddau'n codi ers cyn 1980.

Ffynhonnell: Gwefan Newyddion y BBC, 11 Mehefin 2026



Goblygiadau El Niño i'r Diwydiant Bwyd

Adroddodd Reuters y gallai prisiau cynydau agored iawn, fel **reis, olew palmwydd, cansenni siwgr a choffi**, godi 50% i 100%, neu fwy. Fe allai'r cynnydd hwn gael ei ddwysáu gan brynu mewn panig, hap-fasnachu ac ymyriadau'r llywodraeth fel gwahardd allforio er mwyn gwarchod diogeledd bwyd domestig⁷⁹.

Adroddodd Reuters hefyd ar 16 Mehefin 2026 fod swyddfa dywydd Awstralia wedi rhybuddio y gallai'r El Niño fod yn un o'r cryfaf mewn saith degawd ac y gallai fod yn arbennig o niweidiol i ddiwydiant cynhyrchu amaethyddol y wlad. El Niño 2015/16 oedd un o'r cryfaf ac arweiniodd at sychder helaeth a llai o allbwn grawn a hadau olew. **Awstralia yw un o'r allforwyr gwenith, siwgr a chig eidion mwyaf yn y byd, sy'n rhoi pwysau ar brisiau byd-eang ar gyfer y nwyddau hyn.**

Gall nwyddau a dyfir mewn **rhanbarthau trofannol** fod yn arbennig o agored i effeithiau El Niño⁸⁰:

Nwydd	Rhanbarthau / gwledydd tyfu	Effeithiau
Coco	Gorllewin Affrica	Ddwywaith cymaint o lawiad, ac roedd coed coco'n agored i glefyd ffwngaid. Yna, gwres dwys a gwyntoedd sych a chryf annhymhorol, a achosodd i goed a oedd wedi'u gwanhau oherwydd clefyd ollwng blodau.

⁷⁸ [El Niño has begun, scientists say, and could bring record heat - BBC News](#)

⁷⁹ ['Super' El Nino could trigger a global food price shock. Here's how companies can prevent the next crisis | Reuters](#)

⁸⁰ [Explainer: Why a strong El Niño leaves tropical commodities acutely exposed | Reuters](#)

Coffi Robusta	Fietnam ac Indonesia	Tymereddau uwch a llai o lawiad yn ystod y cam datblygu cnwd, gan effeithio ar gynaeafau. Arweiniodd El Niño 2015/16 at amodau sych cyffredinol a leihodd gynnyrch Fietnam gan oddeutu 2.2m o fagiau (bagiau 60kg). Profodd Indonesia yr un amodau sych, gan leihau allbwn y wlad oddeutu 13% ⁸¹ .
Coffi Arabica	Brasil	Effeithiau mwy cynnil, a chadarnhaol o bosibl, oherwydd fe allai tymereddau uwch atal rhew niweidiol yn y gaeaf. Fodd bynnag, fe allai cyfnodau estynedig o sychder a gwres yn rhanbarthau coffi Brasil yn ystod y pedwerydd chwarter, pan fydd y cnwd nesaf yn datblygu, niweidio allbwn 2027. Roedd cynhaeaf 2024 Brasil yn llai na'r disgwyl o ganlyniad i effeithiau dwysaol El Niño ⁸² .
Siwgr	Brasil, India, Thailand	Fe allai glaw gormodol yn ystod ail hanner y flwyddyn amharu ar gynhaeaf siwgr Brasil a lleihau ei ansawdd. Bydd India a Thailand yn cael llai o lawiad yn ystod monsŵn yr haf, sef yr adeg pan fydd y cnwd yn datblygu, a allai leihau allbwn India.

Adroddodd y Guardian fod dadansoddwyr yn Goldman Sachs wedi rhybuddio y gallai cryfder El Niño 2026/27 arwain at gynydd o bron i 16% ym mhrisiau nwyddau bwyd byd-eang. Fodd bynnag, gall gymryd tan ail hanner 2028 i'r canlyniadau hyn gael eu gwireddu'n llawn⁸³.

Pam Mae Hyn yn Bwysig i Weithgynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru

Fe allai'r El Niño sy'n datblygu eleni darfu ar gynhyrchu amaethyddol byd-eang a chynyddu anwadalrwydd o ran prisiau ac argaeledd cynhwysion allweddol sy'n cael eu mewnforio, porthiant, deunyddiau pecynnu ac ynni. Mae Sefydliad Meteorolegol y Byd (WMO) a Swyddfa Dywydd y Deyrnas Unedig yn nodi bod El Niño 2026 yn debygol o fod yn gymedrol i gryf, gyda'r potensial i fod yn ddigwyddiad cryf iawn, gan gynyddu perygl sychder, tonnau gwres a llifogydd mewn rhanbarthau pwysig ar gyfer cynhyrchu bwyd. Gall yr amodau hyn leihau cynaeafau nwyddau fel reis, siwgr, olew palmwydd, coffi a choco, ar yr un pryd ag effeithio ar gynhyrchu da byw a morgludiant rhyngwladol. Er bod yr effeithiau uniongyrchol ar y tywydd yn y Deyrnas Unedig yn gyfyngedig yn gyffredinol, mae gweithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru yn agored i risgiau trwy gadwyni cyflenwi byd-eang ac fe allent wynebu costau mewnbwn uwch, amserau arwain hirach a phrisiau mwy anwadal.

⁸¹ <https://www.coffeetradingacademy.com/post/el-ni%C3%B1o-guide-for-the-coffee-market-part-2>

⁸² <https://www.thepourover.coffee/what-would-a-super-el-nino-mean-for-coffee/>

⁸³ 'Super' El Niño could cause global food price shock lasting into 2028, analysts say | Global economy | The Guardian

Rhagolwg ac Ystyriaethau

Cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC) ei **Bedwerydd Asesiad Annibynnol o Risg Hinsawdd y Deyrnas Unedig (CCRA4-IA)**⁸⁴ yn ddiweddar, sy'n cadarnhau nad yw'r newid yn yr hinsawdd yn bryder ar gyfer y dyfodol mwyach ond yn risg i fusnesau heddiw. Daw'r asesiad i'r casgliad fod y Deyrnas Unedig **"wedi'i hadeiladu ar gyfer hinsawdd nad yw'n bodoli mwyach"** ac mae'n rhybuddio bod gwres, sychder a llifogydd eisoes yn amharu ar gynhyrchu bwyd, seilwaith a chadwyni cyflenwi. Mae'r adroddiad yn pwysleisio pwysigrwydd addasu er mwyn sicrhau gwydnwch busnesau.

Mae'r asesiad yn arbennig o berthnasol yn dilyn **y ddwy don wres gynnar yn y Deyrnas Unedig ym mis Mai a mis Mehefin 2026**, a achosodd i'r Swyddfa Dywydd gyhoeddi **Rhybudd Coch ar gyfer Gwres Eithafol**, am yr eildro yn unig, ar gyfer rhannau o Gymru a Lloegr⁸⁵. Cyrhaeddodd tymereddau mis Mehefin **37.3°C**, sef yr uchaf erioed, gan amharu'n helaeth ar drafnidiaeth, gwasanaethau cyhoeddus a busnesau. Mae hyn yn dangos y math o dywydd eithafol y mae'r CCC yn disgwyl iddo ddigwydd yn fwyfwy aml mewn hinsawdd sy'n cynhesu.

Ar gyfer gweithgynhyrchwyr bwyd a diod, mae'r CCC yn amlygu **risgiau cynyddol sy'n deillio o straen gwres sy'n effeithio ar gnydau a da byw, llai o gynnyrch porfwyd, prinder dŵr, llifogydd, plâu a chlefydau newydd, a difrod i seilwaith trafnidiaeth ac ynni**. Mae'r asesiad hefyd yn nodi bod **cadwyni cyflenwi bwyd wedi'i oereiddio yn fwyfwy bregus**, gan fod tymereddau uwch yn lleihau effeithlonrwydd storio a dosbarthu oer ar yr un pryd â chynyddu'r galw am ynni a chostau gweithredol. Gan fod y Deyrnas Unedig yn parhau i ddibynnu'n drwm ar fwyd wedi'i fewnforio, **disgwylir i effeithiau'r hinsawdd dramor ddwysáu risgiau domestig** yn sgil llai o argaeledd, anwadalrwydd prisiau a tharfau ar gadwyni cyflenwi byd-eang. Daw'r CCC i'r casgliad y dylai gwydnwch rhag yr hinsawdd ddod yn flaenoriaeth graidd i fusnesau, ac felly bod angen buddsoddi mewn effeithlonrwydd dŵr, systemau oeri, seilwaith gwydn, cyrchu amrywiaethol a chynllunio parhad busnes wedi'i lywio gan yr hinsawdd i sicrhau diogeledd bwyd yn y dyfodol.

Mae'r datblygiadau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn yn pwysleisio **nad yw tarfu ar y gadwyn cyflenwi bwyd yn ddigwyddiad eithriadol mwyach ond yn risg gynyddol barhaus i fusnes**. Mae tywydd eithafol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, marchnadoedd nwyddau ac ynni anwadal, tarfu ar gludiant, ansefydlogrwydd geowleidyddol, ac amodau economaidd sy'n newid yn debygol o barhau i effeithio ar argaeledd, cost a dibynadwyedd deunyddiau crai a phecynnu.

Mae datblygu gwydnwch yn gofyn am ymagwedd ragweithiol at reoli risg. Dylai gweithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru **adolygu ffactorau risg yn y gadwyn gyflenwi**, amrywiaethu cyflenwyr a lleoliadau cyrchu lle y bo'n ymarferol, cryfhau perthnasoedd â chyflenwyr allweddol, monitro risgiau byd-eang sy'n dod i'r amlwg a marchnadoedd nwyddau, a datblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer cynhwysion allweddol a logisteg.

Gall buddsoddi mewn **effeithlonrwydd ynni, stiwardiaeth ddŵr, gwydnwch cadwyn oer a chynhyrchedd adnoddau** helpu i leihau costau gweithredu hefyd yn ogystal â gwella'r gallu i wrthsefyll ysgytwadau yn y dyfodol.

⁸⁴ <https://www.theccc.org.uk/publication/a-well-adapted-uk/>

⁸⁵ <https://www.metoffice.gov.uk/about-us/news-and-media/media-centre/weather-and-climate-news/2026/met-office-issues-red-warning-for-extreme-heat-for-record-third-consecutive-day>

Bydd **cynllunio ar gyfer senario, rheoli stoc yn briodol**, a chydweithio'n fwy â chwsmeriaid, cyflenwyr a rhwydweithiau diwydiant yn galluogi busnesau i ymateb yn fwy effeithiol i amhariadau wrth iddynt ddigwydd. **Dylid adolygu a diweddarau modelau llif arian a rhagfynegi yn rheolaidd** i adlewyrchu cynnydd disgwyledig mewn prisiau nwyddau a sicrhau digon o gyfalaf gweithio i reoli'r cynnydd hwnnw.

Atodiad 1 – Methodoleg

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar ymchwil ddesg. Mae'n cyfiosod data a mewnwleidiadau o amrywiaeth o ffynonellau dibynadwy. Diben yr adroddiad yw dwyn y ffynonellau data hyn ynghyd mewn Adroddiad Monitro chwarterol, cyfleus ar Risgiau Hinsawdd a Chadwyn Gyflenwi i'r Diwydiant Bwyd a Diod. Er y bwriedir canolbwyntio'n bennaf ar risgiau i'r gadwyn cyflenwi bwyd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, bydd risgiau ac effeithiau allweddol eraill yn cael eu cynnwys hefyd, os sylwir arnynt, ac y byddant yn dwysáu risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, fel rhyfel yr Unol Daleithiau-Israel-Iran.

Mae llawer o'r ffynonellau data sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn, yn enwedig data am brisiau nwyddau, ar gael ar lefel y Deyrnas Unedig neu fyd-eang yn unig, yn hytrach nag ar gyfer Cymru yn benodol. Mae hyn yn adlewyrchu cyfyngiadau ar y data sydd ar gael, gan nad yw ystadegau masnach manwl ar lefel nwyddau'n cael eu cynhyrchu ar gyfer Cymru, fel arfer. Fodd bynnag, mae'r data hyn yn parhau i fod yn berthnasol oherwydd bod gweithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru yn cael eu heffeithio gan yr un amodau marchnad yn y DU ac yn fyd-eang, yn ogystal â symudiadau ym mhrisiau nwyddau, ac yn cyrchu deunyddiau crai, cynhwysion a nwyddau o bob rhan o'r DU a thramor.

Cyfyngiadau data

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio ystod o setiau data eilaidd, gan gynnwys mynegeion prisiau nwyddau byd-eang, ystadegau masnach a chynhyrchu, a dangosyddion hinsawdd a risg. Mae'r ffynonellau hyn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau, fel oedi cyn adrodd, diwygiadau ôl-weithredol i amcangyfrifon cynhyrchu a stoc, ac anghysondebau o ran cwmplas ar lefel gwlad a methodoleg. Fe allai prisiau nwyddau adlewyrchu disgwyliadau'r farchnad yn y dyfodol yn hytrach nag argaeledd ffisegol, tra bod data allbwn amaethyddol yn aml yn dibynnu ar amcangyfrifon wedi'u modelu neu ystadegau cenedlaethol hunanadroddedig sy'n amrywio o ran cywirdeb. Mae setiau data hinsawdd a thywydd yn ddarostyngedig i gyfyngiadau eglurder gofodol ac efallai na fyddant yn cyfleu effeithiau lleol iawn (e.e. llifogydd neu sychder ar lefel fferm). O ganlyniad, dylid ystyried y dadansoddiad fel arwydd o risg gyfeiriadol yn hytrach nag asesiad amser real o amodau'r gadwyn gyflenwi.

Ffynonellau




Mae'r holl ffynonellau wedi cael eu dilysu. Cyrchwyd y data yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2025, yn dibynnu ar y dyddiadau rhyddhau. Mae'r rhestr o ffynonellau'n cynnwys, ymhlith eraill:

- Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB)
- Y BBC
- Y Pwyllgor Newid Hinsawdd
- Copernicus
- Cyd-bwyllgor Ymchwil yr Undeb Ewropeaidd
- System Gwybodaeth am y Farchnad Amaethyddol (AMIS) y Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth
- Data masnach Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF)
- Y Sefydliad Dosbarthu Nwyddau Groser (IGD)
- Y Weinyddiaeth Cefnforol ac Atmosfferig Genedlaethol (NOAA)
- Reuters
- Trading Economics

- Swyddfa Dywydd y Deyrnas Unedig
- Adran Amaethyddiaeth yr Unol Daleithiau (USDA)
- Grŵp Banc y Byd


Atodiad 2 – Data Mewnforio 2025 yn seiliedig ar Wybodaeth Fasnach y Deyrnas Unedig CThEF

Protein anifeiliaid




Carbohydradau


**Prif Bartneriaid Mewnforio Reis y DU yn ôl
Cyfaint (kg), 2025**






**Prif Bartneriaid Mewnforio Tatws y DU yn ôl
Cyfaint (kg), 2025**




**Prif Bartneriaid Mewnforio Pasta y DU yn ôl
Cyfaint (kg), 2025**



Ffrwythau a llysiau




Prif Bartneriaid Mewnforio Tomatos y DU yn ôl Cyfaint (kg), 2025




Prif Bartneriaid Mewnforio Letys a

Oniwrcymbrau y DU yn ôl Cyfaint (kg), 2025



Prif Bartneriaid Mewnforio Winwns, Bresych, Llysiau Bresychol, Moron, Maip a Llysiau Codlys y DU yn ôl Cyfaint (kg), 2025



Ffynhonnell: Mae'r ffigurau mewnforio uchod yn defnyddio darn o Ystadegau Masnach Tramor mewn Nwyddau (OTS) a gynhyrchwyd gan Gyllid a Thollau EM (CTHEM) a gafwyd mynediad iddo ar 13 Mai 2026.

Atodiad 3 – Crynodeb o Wasanaethau Cynaliadwyedd a Gwydnwch Hinsawdd

Yr Is-adran Fwyd – Cymorth sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar gyfer busnesau Bwyd a Diod

Mae tîm Dyfodol Cynaliadwy yn rhoi cymorth ymarferol wedi'i ariannu i weithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru i wella effeithlonrwydd a chryfhau gwydnwch busnesau.

Y Gwasanaeth Cynaliadwyedd

Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo gweithgynhyrchwyr bwyd a diod Cymru ar eu taith gynaliadwyedd. Mae ein cynnig Adrodd ar Garbon yn cyd-fynd â Phrotocolau Nwyon Tŷ Gwydr a methodoleg Caffael Cyhoeddus. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn rheoli'r Clwstwr Cynaliadwyedd, sef rhwydwaith sy'n canolbwyntio ar gydweithio, gan gynnwys cymorth wedi'i dargedu ar gyfer ardystiad B Corp.

Y Gwasanaeth Gwydnwch Hinsawdd

Mae'r Gwasanaeth Gwydnwch Hinsawdd yn helpu busnesau i asesu eu risgiau mewn perthynas ag effeithiau'r hinsawdd a diogelu parhad busnes rhag tarfu sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Yn rhan o'r cynnig hwn, gall busnesau gael sesiynau wedi'u teilwra, ar y safle, yn rhad ac am ddim ar gyfer uwch dimau arweinyddiaeth, gan eu helpu i ddatblygu strategaethau gwydnwch ymarferol. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cyhoeddi'r Adroddiad Monitro Chwarterol ar Risgiau Hinsawdd a Chadwyn Gyflenwi i'r Diwydiant Bwyd a Diod.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i gael at y cymorth uchod, cysylltwch â sustainablefd@gov.wales

Rhaglenni cymorth eraill yr Is-adran Fwyd ar gyfer busnesau Bwyd a Diod

Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd – cynllun grant a luniwyd i wella perfformiad, cystadleurwydd ac effeithlonrwydd busnesau.

Blas Cymru – mae'n hyrwyddo bwyd a diod o Gymru ar lwyfan domestig a rhyngwladol.

Rhaglen Datblygu Masnach – mae'n cynorthwyo busnesau bwyd a diod i dyfu a chreu swyddi trwy ymgysylltu â masnach manwerthu, gwasanaeth bwyd a chyfanwerthu.

Uwchraddio a'r Rhwydwaith Clwstwr – mae'r rhwydwaith clwstwr yn sbarduno cydweithio rhwng busnesau. Mae'r Rhaglen Uwchraddio'n darparu'r offer a'r dulliau sy'n ofynnol i fusnesau fod yn wydn, ac i ffynnu a goresgyn y rhwystrau rhag uwchraddio.

Rhaglen Datblygu Allforio – mae'n arddangos bwyd a diod o Gymru i gynulleidfa ryngwladol o brynwyr, dosbarthwyr a dylanwadwyr, ac yn denu mewnfuddsoddiad.

Arloesi Bwyd Cymru / Rhaglen Helix – mae'r Rhaglen Helix yn dwyn pedair Canolfan Fwyd ynghyd ledled Cymru ac yn rhoi cymorth technegol a gweithredol ar bob agwedd ar weithgynhyrchu bwyd.

Cywain – mae'n rhoi sgiliau, gwybodaeth a chynghor arbenigol i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau) bwyd a diod i ddatblygu a thyfu.

[Sgiliau Bwyd a Diod Cymru](#) – mae’n cynorthwyo busnesau bwyd a diod gyda phwyslais ar y diwydiant prosesu a gweithgynhyrchu i sicrhau bod cyflogaion yn meddu ar y sgiliau a’r hyfforddiant iawn ar gyfer eu busnes.

[Mewnwelediad i’r Farchnad](#) – gwybodaeth gyfredol am y sector bwyd a diod, ynghyd â rhagfynegiadau ynglŷn â datblygiadau yn y farchnad yn y dyfodol.

[Partneriaethau Bwyd Lleol](#) – mynd i’r afael â thlodi bwyd, cryfhau cadwyni cyflenwi bwyd lleol a sbarduno twf gwyrdd.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i gael at y cymorth uchod, cysylltwch â
FoodDivisionalBusiness@gov.wales

Rhaglenni cymorth amaethyddol eraill

Mae’r [Cynllun Arallgyfeirio Amaethyddol a Garddwriaeth](#) yn cynorthwyo cynhyrchwyr cynradd i ehangu cynhyrchu, arallgyfeirio i gnydau newydd, a gwella ansawdd cynnyrch.

Y [Cynllun Ffermio Cynaliadwy](#) yw prif fframwaith cymorth Llywodraeth Cymru o 2026 ymlaen ac mae’n berthnasol i arddwriaeth ynghyd ag amaethyddiaeth.

Cynllun peilot Benthyciadau Amaethyddiaeth Gynaliadwy (SALS) [Banc Datblygu Cymru – Benthyciadau ar gyfer Busnesau Cymru](#) a gynlluniwyd i wella mynediad at gyllid fforddiadwy i fusnesau ffermio yng Nghymru.

Mae’r [Cynllun Arallgyfeirio Amaethyddol a Garddwriaeth](#) yn cynorthwyo tyfwyr i fuddsoddi mewn technoleg ac offer i alluogi busnesau garddwriaethol i ehangu cynhyrchu yn gynaliadwy.

Mae’r [Cynllun Tyfu er mwyn yr Amgylchedd](#) yn uniongyrchol berthnasol i arddwriaeth gan ei fod yn cefnogi ymyriadau wedi’u seilio ar gnydau, fel cnydau gorchudd.

Grantiau bach:

- Cynllun amgylcheddol
- [Cynllun effeithlonrwydd](#)
- [Grant Adfer Mawndir](#)
- [Cynllun Dechrau Busnes Garddwriaeth](#)
- [Cynllun Adfer Coetir](#)

Mae [Cyswllt Ffermio](#) yn helpu tyfwyr i fabwysiadu arferion hinsawdd-ddeallus, gan gynnwys technegau rheoli pridd, lleihau carbon a chynhyrchu cynaliadwy, sy’n sail i gyflawni canlyniadau hinsawdd ar draws y sector.

[Taliadau Gwledig Cymru \(RPW\) Ar-lein](#)

[Cynllun Benthyciadau Amaethyddiaeth Gynaliadwy – Banc Datblygu](#)